



Pecyn Cymorth Caffael Cyhoeddus Dim Datgoedwigo

Wedi ei ddylunio i helpu'r sector cyhoeddus yng
Nghymru i leihau ei ôl troed coedwigoedd trofannol

Tabl Cynnwys

- 3 Ynghylch y pecyn cymorth hwn
- 4 Ynghylch Cenedl Dim Datgoedwigo
- 5 Ble rydyn ni nawr
- 7 Pwysigrwydd coedwigoedd trofannol
- 10 Pam y dylai cyrff cyhoeddus weithredu
- 13 Nwyddau sy'n risg i goedwigoedd
- 26 Llwybr Dysgu Dim Datgoedwigo
- 41 Straeon datgoedwigo o lygaid y ffynnon
- 47 Astudiaethau achos o arferion gorau
- 61 Geirfa
- 63 Cyfeiriadau
- 67 Atodiad A: Siarter Dim Datgoedwigo a Cynllun Gweithredu



Ynghylch y pecyn cymorth hwn

Dyluniwyd y Pecyn Cymorth Caffael Cyhoeddus Dim Datgoedwigo hwn gan Maint Cymru i helpu cyrff cyhoeddus yng Nghymru i sicrhau nad yw'r cynnyrch a'r nwyddau maen nhw'n eu prynu yn achosi datgoedwigo trofannol a dinistrio cynefinoedd dramor.

Mae rhwng 70 ac 80 y cant o'r holl ddatgoedwigo trofannol¹ yn cael ei achosi wrth gynhyrchu dim ond llond llaw o gynnyrch amaethyddol - cynnyrch a brynwn, a ddefnyddiwn ac a fwydawn yng Nghymru bob dydd, gan gynnwys cig eidion o Dde America, soia (wedi'i gynnwys mewn cynnyrch anifeiliaid) olew palmwydd, coffi, cacao, pren, papur a mwydion coed. Mae Cymru'n mewnforio meintiau sylweddol o'r nwyddau hyn, sy'n gysylltiedig â datgoedwigo a throsi tir ac effeithiau cymdeithasol negyddol eraill fel llafur plant, llafur gorfodol a difriö hawliau Pobl Frodorol. Mae Cymru'n defnyddio tua 341,000 hectar o dir dramor bob blwyddyn i gynhyrchu pum prif nwydd sy'n gysylltiedig â datgoedwigo (cig eidion, soia, olew palmwydd, cacao a choffi). Yn ogystal, gall buddsoddiadau sydd yn cael eu gwneud gan sefydliadau yng Nghymru,

fel cronfeydd pensiwn y sector cyhoeddus, gyfrannu at ddatgoedwigo drwy fuddsoddi mewn cwmnïau sy'n ariannu diwydiannau dinistriol, er enghraifft cynhyrchu cig eidion dwys. Drwy fynd i'r afael â datgoedwigo a throsi cynefinoedd o fewn cadwyni cyflenwi'r sector cyhoeddus yng Nghymru, gall cyrff cyhoeddus helpu i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur, diogelu hawliau Pobl Frodorol, a lleihau'r risg o bandemigau yn y dyfodol.

Mae'r pecyn cymorth hwn yn adlewyrchu cyd-destun polisïau a fframweithiau Cymru ac ar draws y DU, ac yn dangos sut y gall Caffael Cynnyrch Sydd Ddim yn Achosi Datgoedwigo helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu dyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus, a deddfwriaethau allweddol eraill (gweler [dudalen 12](#) am fwy o fanylion), a helpu Cymru i ddod yn genedl fwy iach, gwydn, llewyrchus ac yn gyfrifol ar lefel fyd-eang. Mae'r ddogfen hefyd yn edrych ar y sefyllfa ehangach ar lefel ryngwladol, gan gynnwys deddfau ac arferion diwydrwydd dyladwy, i ddangos y cyfeiriad cyffredinol o ran nwyddau sy'n risg i goedwigoedd, ac yn darparu astudiaethau achos ysbrydoledig.

Ar gyfer pwyl mae'r pecyn cymorth hwn?

Mae'r pecyn cymorth hwn yn addas ar gyfer gweithwyr y sector cyhoeddus/gweision sifil, yn enwedig y rheini sydd â rôl arweinyddiaeth ac sydd yn ymwneud â gwneud penderfyniadau strategaeth a pholisi o fewn eu sefydliad. Mae hefyd yn berthnasol i weithwyr caffael, fel prynwyr a rheolwyr cysylltiadau sydd yn gweithio'n uniongyrchol gyda chyflenwyr, arweinwyr hinsawdd a natur ac ymarferwyr cynaliadwyedd. Fodd bynnag, mae hefyd yn addas i unrhyw aelod o staff sy'n codi archebion caffael am gynnyrch bwyd neu nwyddau eraill sy'n risg i goedwigoedd fel rhan o'u rôl.

Gellir ei ddefnyddio i gefnogi [Asesiad Risg Cynaliadwyedd Llywodraeth Cymru](#) ar gyfer tendrau gwerth uchel, ond hefyd ar gyfer caffaeliadau gwerth is, i helpu i leihau'r risg o ddatgoedwigo trofannol a throsi cynefinoedd ar draws gwariant y sector cyhoeddus.

¹ <https://ourworldindata.org/drivers-of-deforestation>

Ynghylch Cenedl Dim Datgoedwigo

Mae Cenedl Dim Datgoedwigo yn ymgyrch sy'n canolbwyntio ar atebion gan yr elusen newid hinsawdd, Maint Cymru, mewn cydweithrediad â WWF Cymru.

Nod yr ymgyrch ydy helpu Cymru i leihau ei hôl-troed tir dramor mewn perthynas â nwyddau sy'n risg i goedwigoedd, a chefnogi Cymru i ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur, ac i sefyll mewn undod â Phobl Frodorol a chymunedau coedwigoedd sydd ar y rheng flaen o ran datgoedwigo a newid hinsawdd.

Mae ein gweithgareddau'n cynnwys y canlynol:

1. Codi ymwybyddiaeth o effeithiau nwyddau sy'n risg i goedwigoedd
2. Eiriol dros gyrchu cynaliadwy, fel ardystiadau moesegol a mesurau i leihau'r defnydd o nwyddau sy'n risg i goedwigoedd.
3. Darparu llwyfan ar gyfer Pobl Frodorol a chymunedau coedwigoedd sydd ar y rheng flaen o ran datgoedwigo a newid hinsawdd.
4. Gweithio ar draws cymdeithas gyda sector cyhoeddus Cymru, busnesau, ysgolion a chymunedau i helpu Cymru i bontio i economi carbon isel gwydn, sy'n iachach a'n llewyrchus.
5. Rhannu gwybodaeth, dysgu ac arfer gorau.



Ble rydyn ni nawr

Rydym yn wynebu argyfwng hinsawdd a natur. Er gwaethaf y dystiolaeth ddiwrthbrawf fod allyriadau dynol yn cynhesu ein planed ac yn dadsefydlogi ein hinsawdd, mae'r allyriadau nwyon tŷ gwydr byd-eang yn parhau i gynyddu. Mae angen gwneud toriadau brys a mawr mewn allyriadau byd-eang, ac mae coed a choedwigoedd yn rhan hanfodol o'r ateb.

Fodd bynnag, er bod dros 140 o wledydd wedi ymrwymo i atal a gwrthdroi datgoedwigo a diraddio tir erbyn 2030 yn COP26 yn Glasgow, mae'r byd dal ymhell o gyrraedd y llwybr o stopio datgoedwigo'n gyfan gwbl. Er bod rhywfaint o gynydd wedi'i wneud, mae colli coedwigoedd yn parhau i fod yn bryderus o uchel. Yn 2024 yn unig, collwyd 6.7 miliwn hectar o goedwig drofannol gynradd, yn bennaf oherwydd tanau a datgoedwigo.² Roedd tanau coedwig a achoswyd

gan gynydd yn y tymereddau yn gyfrifol am 50 y cant o'r holl goedwigoedd trofannol cynradd a gafodd eu colli yn 2024, a wnaeth ryddhau mwy na phedair gwaith yr allyriadau o'r holl deithiau awyr yn 2023.³ Mae'r CO2 hwn sydd yn cael ei ryddhau yn cyfrannu at effeithiau hinsawdd dinistriol, fel sychderau eithafol yn yr Amazon⁴, sydd yn gadael cymunedau yn sownd ac sy'n lladd nifer anhysbys o anifeiliaid, yn ogystal â dadleoli Pobl Frodorol o'u tiroedd.⁵ Mae'r Amazon mewn perygl o gyrraedd trobwynt anwrthdroadwy, a allai arwain at weld ecosystem y goedwig fioamrywiol hon yn cael ei droi'n safana, a chynyddu effeithiau'r hinsawdd a chreu ansicrwydd bwyd a dŵr i filiynau o bobl. Mae'r pwysau ar yr Amazon yn cynyddu. Mae angen i ni weithredu nawr. Heb yr Amazon, rydym yn colli'r frwydr yn erbyn newid hinsawdd.

Tynnwyd sylw at bwysigrwydd coedwigoedd trofannol i ddiogelwch cenedlaethol y DU mewn Aseiad Diogelwch Cenedlaethol diweddar gan Lywodraeth y DU.⁶

2 <https://www.wri.org/news/release-global-forest-loss-shatters-records-2024-fueled-massive-fires>

3 <https://www.wri.org/news/release-global-forest-loss-shatters-records-2024-fueled-massive-fires>

4 <https://www.imperial.ac.uk/news/251057/climate-change-made-unprecedented-amazon-rainforest/>

5 <https://news.mongabay.com/2023/11/deforestation-in-the-brazilian-amazon-falls-22-in-2023/>

6 https://assets.publishing.service.gov.uk/media/696e0eae719d837d69afc7de/National_security_assessment_-_global_biodiversity_loss_-_ecosystem_collapse_and_national_security.pdf



Nododd yr adroddiad hwn fod coedwig law'r Amazon-sydd yn cael ei hadnabod fel ecosystem allweddol sy'n hanfodol i ddiogelwch cenedlaethol y DU-ar hyn o bryd wedi colli 17 y cant o'i gorchudd coed. Mae modelu'n awgrymu y byddai'r Amazon yn gallu cwmpo petasai'n cyrraedd y trothwy, ac yn colli rhwng 20 y cant a 25 y cant o'i gorchudd coed.

Byddai canlyniadau cwmp o'r fath yn enfawr, gan gynnwys mwy o ymfudo, ansefydlogrwydd gwleidyddol a gwrthdaro milwrol, yn ogystal â risg uwch o bandemigau. Byddai hyn yn cael effeithiau sylweddol pellach ar ddiogelwch bwyd y DU, gan fod y DU yn dibynnu ar farchnadoedd ar draws y byd am nwyddau fel soia ac olew palmwydd o Dde America. Mae'r ddau yn cael eu defnyddio fel porthiant i dda byw yn y DU, ac mae olew palmwydd hefyd yn cael ei ddefnyddio'n helaeth mewn bwydydd

wedi'u prosesu'n helaeth. Mae ein dibyniaeth ar gadwyni cyflenwi bwyd cymhleth, rhyngwladol yn ein gwneud yn fregus dros ben, wrth i'r bygythiadau i'r hinsawdd a natur dyfu.

Yng Nghymru, rydym wedi profi sawl ton wres a llai o law, gan gynyddu'r risg o lifogydd sydyn, prinder dŵr a marwolaethau sy'n gysylltiedig â gwres.^{7,8} Mae dros 273,000 o gartrefi mewn perygl o ddiodeff llifogydd, tra bod tywydd eithafol yn bygwth ein gallu i dyfu a chael gafael ar fwyd. Mae digwyddiadau fel sychderau a llifogydd yn costio miliynau o bunnoedd i ffermwyr Cymru bob blwyddyn.⁹ Mewn astudiaeth ddiweddar, nododd 55 y cant o ffermwyr mai mynd i'r afael â thywydd eithafol sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd yw'r flaenoriaeth ar gyfer diogelwch bwyd yn y DU.¹⁰ Yn ogystal ag effeithio'n uniongyrchol ar ffermwyr, yn 2022-23, fe wnaeth effaith newid hinsawdd gynyddu cost gyfartalog bil bwyd aelwydydd yn y DU £361.¹¹

Os ydym o ddifrif am gyfyngu cynhesu byd-eang i 1.5°C – y terfyn a gytunwyd yng Nghytundeb Hinsawdd Paris – rhaid inni atal a gwrthdroi datgoedwigo trofannol a throosi cynefinoedd. Os na fyddwn yn gwneud hwn, byddwn yn wynebu lefelau cynhesu byd-eang trychinebus a fydd yn effeithio ar *bob* ffurf o fywyd fel rydym yn ei

adnabod. 2024 oedd y flwyddyn gyntaf erioed i'r tymheredd byd-eang cyfartalog fynd dros 1.5°C uwchlaw lefelau cyn-ddiwydiannol.¹² Ni allwn ganiatáu i hyn ddod yn normal. Rhaid inni weithredu gyda'n gilydd nawr i atal datgoedwigo, lleihau cynhesu byd-eang, ac i osgoi effeithiau difrifol ar yr hinsawdd. Rhaid inni hefyd ddefnyddio llai o adnoddau'r blaned.



© Maint Cymru (Llun o Ju Kerexu – arweinydd Gwarani)

7 <https://www.metoffice.gov.uk/about-us/news-and-media/media-centre/weather-and-climate-news/2025/uk-on-track-for-one-of-its-warmest-summers-on-record>

8 <https://www.ishtm.ac.uk/newsevents/news/2025/nearly-600-heat-related-deaths-expected-uk-heatwave-researchers-estimate>

9 https://www.wwf.org.uk/sites/default/files/2024-03/5126%20-%20FARMING%20IN%20WALES_REPORT_v3.pdf

10 <https://eciu.net/media/press-releases/2025/majority-of-farmers-report-feelings-of-anxiety-and-depression-in-face-of-drought-and-flooding>

11 <https://eciu.net/analysis/reports/2023/climate-fossil-fuels-and-uk-food-prices-2023>

12 <https://climate.copernicus.eu/copernicus-2024-first-year-exceed-15degc-above-pre-industrial-level>



Pwysigrwydd coedwigoedd trofannol

Pwysigrwydd coedwigoedd trofannol

Rheoli'r hinsawdd

Mae diogelu'r coedwigoedd trofannol presennol yn hanfodol ar gyfer mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd. Mae hanner yr holl garbon sydd yn cael ei storio yng nghoedwigoedd y Ddaear yn y rhanbarthau trofannol.¹³ Mae hyn yn rhannol oherwydd y coed pren caled trwchus sy'n tyfu mewn coedwigoedd trofannol a'r lefelau parhaus o heulwen trwy gydol y flwyddyn, sy'n golygu deuddeg mis o dwf, ffotosynthesis a dal a storio carbon. Trwy'r broses ffotosynthesis, mae coed yn storio carbon uwchlaw'r ddaear yn eu pren, rhisgl a dail, ac islaw'r ddaear yn eu gwreiddiau, gan ddal carbon yn ddwfn yn y pridd. Ar lawr y coedwigoedd, mae deilbridd, hadau, aeron a brigau'n dadelfennu hefyd, gan drosglwyddo carbon a microfaetholion i'r pridd.

Pan fyddwn yn llosgi coedwig, rydym nid yn unig yn rhyddhau'r carbon sydd wedi'i storio i'r atmosffer, gan ychwanegu at yr allyriadau dynol presennol o wastraff bwyd, diwydiant a chludiant er enghraifft, ond rydym hefyd yn rhwystro'r Ddaear rhag tynnu'r carbon a allyrrwn o'r ffynonellau eraill hyn i lawr. Am bob coeden a gollir, rydym yn cynyddu'r crynodiadau o CO₂ atmosfferig sy'n sbarduno'r newid yn yr hinsawdd, ac yn lleihau gallu'r Ddaear i wrthsefyll allyriadau.

Un o swyddogaethau eraill coedwigoedd trofannol ydy creu haen o gymylau, sy'n allwyo ymbelydredd solar yn ôl i'r gofod ac yn helpu i reoli tymheredd y Ddaear. Mewn cyferbyniad, mae tir wedi'i ddatgoedwigo'n amsugno mwy o ymbelydredd solar, sy'n codi tymhereddau ar draws y byd.

¹³ <https://www.grida.no/resources/6948>



Bioamrywiaeth

Mae diogelu coedwigoedd trofannol yn bwysig nid yn unig yn ein brwydr yn erbyn newid hinsawdd, ond hefyd, i wrthdroi'r golled gatastroffig o fyd natur. **Mae coedwigoedd trofannol yn cyfrif am ddim ond chwech y cant o orchudd yr ehangdir ar y ddaear, ond maen nhw'n cynnal dros 50 y cant o rywogaethau planhigion ac anifeiliaid y ddaear.**¹⁴ Mae'r fflora a ffawna ffrwythlon hyn yn ffurfio ecosystem gymhleth, lle mae priddoedd, ffyngau, planhigion ac anifeiliaid yn helpu i gyflwyno amrywiaeth anferth o wasanaethau ecosystem. Mae hyn yn cynnwys rheoli gwasanaethau, o buro aer a dŵr – e.e. mae Coedwig Môr yr Iwerydd Brasil yn darparu dros 60 y cant o gyflenwad dŵr yfed y boblogaeth¹⁵ i atal llifogydd a sychder, a gwasanaethau dros dro, fel lloches, bwyd a meddyginiaeth. Heb sôn am wasanaethau diwylliannol, fel cyfoethogi a symbylu ysbrydol.


Heddiw, mae llawer o rywogaethau dan fygythiad oherwydd datgoedwigo, yn cynnwys orangwtaniaid yn Borneo a'r teigr Swmatra yn Indonesia. A hefyd y micro-organebau a'r ffyngau di-rif sy'n byw mewn priddoedd coedwig iach ac sy'n cynnal ecosystem lewyrchus a allai gynnal bywyd.

Pobl Frodorol a Chymunedau Coedwigoedd

Mae ymchwil helaeth yn cydnabod bod Pobl Frodorol a chymunedau coedwigoedd lleol yn chwarae rhan hanfodol fel gwarcheidwaid coedwigoedd y Ddaear.^{16,17,18} Mae Pobl Frodorol wedi bod yn diogelu cynefinoedd coedwigoedd bioamrywiol am filoedd o flynyddoedd, gan stiwardio a pharchu'r tir, afonydd, planhigion ac anifeiliaid. **Yn wir, mae coedwigoedd sydd yn cael eu diogelu gan gymunedau Brodorol yn storio mwy o garbon ac yn cynnwys mwy o fioamrywiaeth na'r rhai sydd heb eu diogelu.**¹⁹ Serch hynny, mae Pobl Frodorol a chymunedau coedwigoedd eraill yn peryglu eu bywydau i ddiogelu eu coedwigoedd, eu bywoliaethau a'u diwylliannau rhag effeithiau datgoedwigo sydd yn cael ei achosi gan y galw byd-eang am gynnyrch fel cig eidion, soia, olew palmwydd a phren. Mae cefnogi Pobl Frodorol a chymunedau coedwigoedd trwy fesurau fel masnach deg a chynaliadwy, nid yn unig yn deg ac yn foesebol yn nhermau hawliau dynol, ond mae'n hanfodol hefyd i helpu i ddiogelu a gwarchod y biosffer y mae'r holl fywyd ar y Ddaear yn dibynnu arno.

Milheintiau

Gall diogelu coedwigoedd trofannol helpu i leihau'r perygl o bandemigau hefyd, drwy ddarparu tir clustog rhwng bodau dynol a bywyd gwyllt. Mae saith deg pump y cant o glefydau heintus datblygol yn filheintiau²⁰ – sy'n ymledu o anifeiliaid i fodau dynol – ac mae'r cyfraddau cynyddol o ddatgoedwigo yn arwain at ryngweithiadau amlach rhwng bodau dynol a bywyd gwyllt, ac yn arbennig, trwy weithgarwch amaethyddol. Yn wir, ers y 1940au, mae bron 50 y cant o'r milheintiau sydd wedi ymddangos yn gysylltiedig ag amaethyddiaeth.²¹ Mae'r firysau marwol, Ebola a Nipah, yn enghreifftiau o bathogenau sydd wedi neidio dros wahanfur y rhywogaethau i boblogaethau dynol, a gellir cysylltu'r rhain yn uniongyrchol â datgoedwigo trofannol.^{22,23}



¹⁴ <https://rainforestfoundation.org/our-work/priorities/>

¹⁵ <https://www.worldwildlife.org/magazine/issues/summer-2021/articles/restoring-brazil-s-atlantic-forest>

¹⁶ <https://www.science.org/doi/10.1126/sciadv.aaw2869>

¹⁷ <http://www.edf.org/sites/default/files/tropical-forest-carbon-in-indigenous-territories-a-global-analysis.pdf>

¹⁸ <https://www.nature.com/articles/s41558-021-01042-5>

¹⁹ <http://www.fao.org/3/cb2953en/cb2953en.pdf>

²⁰ <https://www.unep-wcmc.org/news/six-ways-conserving-and-sustainably-using-nature-could-prevent-future-pandemics>

²¹ <https://www.cirad.fr/en/press-area/press-releases/2021/zoonotic-diseases-and-deforestation-covid-19>

²² <https://thecsrjournal.in/csr-how-deforestation-contributes-to-spreading-of-nipah-virus/>

²³ <https://europepmc.org/article/MED/33842581>

Pam y dylai cyrff cyhoeddus weithredu

Gyda gwariant caffael blynyddol o £10 biliwn, mae gan y sector cyhoeddus yng Nghymru ran anferth i'w chwarae mewn annog cynhyrchu cynaliadwy a dileu datgoedwigo trofannol o economi Cymru. Trwy fabwysiadu polisi Caffael Dim Datgoedwigo, bydd cyrff cyhoeddus yn cyflawni'r canlynol:

1. Helpu i leihau cynhesu byd-eang a lliniaru effeithiau gwaethaf newid hinsawdd.
2. **Diogelu cymunedau** sydd ar reng flaen newid hinsawdd trwy **gynyddu eu gwydnwch i effeithiau'r hinsawdd** trwy fasnach deg a chynaliadwy.
3. Cyfrannu at **ddiogelwch cenedlaethol a byd-eang drwy ddiogelu ecosystemau hanfodol sy'n darparu gwasanaethau hanfodol**. Fe wnaeth Asesiad Diogelwch Cenedlaethol Llywodraeth y DU yn 2025²⁴ ddarganfod fod ecosystemau fel coedwig law yr Amazon yn beryglus o agos at gwympo, gyda lefelau presennol datgoedwigo ar 17 y cant. Bydd bygythiadau i'r ecosystemau hanfodol hyn, sy'n cefnogi cynhyrchiant bwyd byd-eang mawr – gan gynnwys coedwigoedd glaw trofannol – yn cael effeithiau sylweddol pellach ar ddiogelwch bwyd y DU.
4. Cyfrannu at **nodau llesiant Cymru** o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a chefnogi'r gwaith o gyflawni argymhelliad Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i'r **sector cyhoeddus yng Nghymru ddod yn sector sydd ddim yn cyfrannu at ddatgoedwigo erbyn 2028**.²⁵
5. **Cydymffurfio â Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023**²⁶ sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru gaffael mewn ffordd sy'n gyfrifol ar lefel gymdeithasol, ac ymgorffori gwerth gymdeithasol drwy gefnogi bywoliaethau cynaliadwy gartref ac yn rhyngwladol. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus wneud penderfyniadau caffael sy'n cefnogi pob un o'r saith nod llesiant cymaint â phosib, gan gynnwys gweithredu fel 'Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang'. Mae'r Canllawiau
6. **Cefnogi bioamrywiaeth a gwydnwch ecolegol**. Dan Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, mae gan awdurdodau cyhoeddus sy'n cyflawni eu swyddogaethau mewn perthynas â Chymru ddyletswydd gyfreithiol i gynnal a gwella bioamrywiaeth a hybu gwydnwch ecosystemau.²⁸ Gall cyrff cyhoeddus gefnogi bioamrywiaeth yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol, er enghraifft, trwy bolisiau caffael cynaliadwy.

24 https://assets.publishing.service.gov.uk/media/696e0eae719d837d69afc7de/National_security_assessment_-_global_biodiversity_loss__ecosystem_collapse_and_national_security.pdf

25 <https://futuregenerations.wales/cym/wp-content/uploads/2025/05/Future-Generations-Report-2025.pdf>

26 <https://www.legislation.gov.uk/asc/2023/1/enacted>

27 <https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2026-03/social-partnership-and-public-procurement-wales-act-statutory-guidance-socially-responsible-procurement-srp.pdf>

28 <https://www.gov.wales/section-6-biodiversity-and-resilience-ecosystems-duty-reporting-guidance>

7. **Helpu i leihau ein hallyriadau defnyddio dramor.** I drosglwyddo i economi carbon is, bydd angen i ni gyfeirio at yr allyriadau rydym yn eu creu drwy ein defnydd o gynnyrch a gwasanaethau (h.y. allyriadau Cwmpas 3), nid dim ond yr allyriadau rydym yn eu cynhyrchu yng Nghymru/yn ddomestig.
8. Rhoi statws Cymru fel **Cenedl Masnach Deg**, ar waith, mynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern, a hyrwyddo arferion gwaith teg mewn cadwyni cyflenwi.
9. **Cefnogi system fwyd leol, adfywiol sy'n gyfeillgar i natur.** Drwy gefnogi ardystiadau moesegol a chymryd camau holistaidd i leihau'r risg o ddatgoedwigo, gall cyrff cyhoeddus gefnogi cynhyrchwyr bwyd llai, lleol a'r rhai sy'n cymryd camau i wneud ffermio yn fwy adfywiol.
10. **Lleihau'r risg o bandemigau yn y dyfodol.** Mae'r pandemig COVID-19 wedi taflu goleuni ar ein perthynas gymhleth â natur – yn cynnwys y rhan y mae datgoedwigo a dinistrio cynefinoedd yn ei chwarae wrth gynyddu'r perygl o filheintiau. Mae perygl o sbarduno pandemigau newydd, wrth i anifeiliaid gwyllt gael eu gorfodi i fyw yn nes at fodau dynol a da byw oherwydd datgoedwigo.

11. **Dangos arweinyddiaeth traws-sector ar gyfer deddfwriaeth diwydrwydd dyladwy'r DU ar nwyddau sy'n peryglu coedwigoedd.** Mae tasglu Menter Adnoddau Byd-eang y DU yn argymhell y dylai'r sector cyhoeddus helpu i arwain y pontio i nwyddau cynaliadwy trwy gryfhau'r gofynion caffael cyhoeddus sy'n orfodol ar hyn o bryd o ran nwyddau cynaliadwy.
12. **Cydweithio gyda chymdogion byd-eang i helpu i fynd i'r afael â datgoedwigo trofannol a'r effeithiau cysylltiedig.** Mae gwledydd a gwladwriaethau arloesol naill ai wedi gweithredu neu wrthi'n datblygu polisiau i ddileu datgoedwigo wedi'i fewnforio o gaffael cyhoeddus. (Gweler astudiaethau achos arferion gorau).
13. **Diogelu gallu corff cyhoeddus i gyflawni ei weithgareddau drwy'r ffyrdd canlynol:**
- a. **Lleihau'r risg ffisegol**
Mae hyn yn cyfeirio at effaith ffisegol newid hinsawdd, a allai effeithio ar allu sefydliad i gyflawni ei swyddogaeth, e.e. digwyddiad unigol, fel llifogydd, neu newidiadau cynyddrannol, fel tymheredd neu lefel y môr lefel yn codi.²⁹

- b. **Lleihau'r risg wrth bontio**
Mae hyn yn cyfeirio at yr effeithiau ariannol posibl os bydd sefydliad yn methu ag ymaddasu i newidiadau yn ystod y pontio i economi carbon isel fyd-eang.
- c. **Diogelu ymddiriedaeth y cyhoedd**
Mae sefydliadau'n wynebu mwy o risg i'w henw da oherwydd problemau yn eu cadwyni cyflenwi. Drwy sicrhau bod nwyddau'n cael eu caffael yn gyfrifol a bod buddsoddiadau'n gynaliadwy, gall cyrff cyhoeddus ddiogelu eu henw da a chynnal ymddiriedaeth y cyhoedd.
- ch. **Cynyddu cyfranogiad aelodau o staff**
Mae ymrwymadau cynaliadwyedd yn cael effaith cadarnhaol ar gyfranogiad aelodau o staff,³⁰ a gall hyn gyflwyno buddion posibl drwy wella boddhad aelodau o staff a'u cadw.
- d. **Ymateb i'r newid yn agweddau'r cyhoedd** gan fod 70 y cant o'r cyhoedd yn y DU yn cefnogi camau gan y llywodraeth i fynd i'r afael â datgoedwigo anghyfreithlon.³¹

²⁹ <https://www.ceres.org/resources/reports/investor-guide-deforestation-and-climate-change>


³⁰ <https://www.deloitte.com/us/en/insights/topics/environmental-social-governance/importance-of-sustainability-to-employees.html>

³¹ <https://www.wwf.org.uk/press-release/brits-back-action-tackle-illegal-deforestation>

Manteision Caffael Dim Datgoedwigo		Cyd-fynd â deddfwriaeth, polisïau a fframweithiau
Amgylcheddol	Diogelu coedwigoedd trofannol a chynefinoedd pwysig eraill	Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: Gwydn; Yn gyfrifol ar lefel fyd-eang; Llewyrchus Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2025: Argymhellodd y Comisiynydd y dylai'r sector cyhoeddus yng Nghymru ddod yn sector dim datgoedwigo erbyn 2028 Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig: Bywyd ar y Tir; Gweithredu ar yr Hinsawdd; Dinasoedd a Chymunedau Cynaliadwy; Iechyd a Lles Da; Defnyddio a Chynhyrchu'n Gyfrifol; Diwydiant, arloesi a seilwaith Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023: Caffael cyhoeddus cyfrifol sy'n helpu i gyflawni nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, hyrwyddo gwaith teg mewn cadwyni cyflenwi, ac ystyried effeithiau cymdeithasol ac amgylcheddol caffael ar draws y byd. Rheoliad yr UE ar gynnyrch dim Datgoedwigo (EUDR): Atal defnyddio cynnyrch sy'n cyfrannu at ddatgoedwigo a diraddio coedwigoedd yn yr UE ac yn fyd-eang. Deddf yr Amgylchedd 2021: Atodlen 17 – gofyniad diwydrwydd dyladwy ar gyfer nwyddau sy'n risg i goedwigoedd; Adran 6 – dyletswydd Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau Mwy Nag Ailgylchu (Strategaeth Economi Gylchol Cymru) 2021 Rheoliadau Newid Hinsawdd (Cymru) 2021 a'r Cyllidebau Carbon a'r targedau lleihau allyriadau cysylltiedig – yn enwedig o ran allyriadau Cwmpas 3 y sector cyhoeddus
	Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr.	
	Diogelu gallu'r Ddaear i atafaelu carbon	
	Mynd i'r afael ag allyriadau o'r hyn rydym yn ei brynu o dramor h.y. nid dim ond yr allyriadau a gynhyrchir yng Nghymru.	
	Cefnogi bioamrywiaeth a diogelu rhywogaethau sydd mewn perygl	
	Cefnogi gwasanaethau ecosystemau	
	Hyrwyddo defnydd cynaliadwy o adnoddau, e.e. defnyddio pren a phapur wedi'u hailgylchu a lleihau gwastraff bwyd	
	Hyrwyddo'r defnydd o systemau tyfu bwyd adfywiol ac organig sy'n cefnogi bioamrywiaeth ac sy'n atafaelu carbon	
Cymdeithasol	Lleihau'r allyriadau sy'n gysylltiedig â chludo bwyd wedi'i fewnforio	
	Lleihau'r risg o bandemigau yn y dyfodol	Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: Iachach; Llewyrchus; Cyfrifol ar lefel fyd-eang; Mwy cyfartal Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig: Lleihau anghydraddoldebau; Iechyd a lles da; Cydraddoldeb rhywedd Datganiad y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Frodorol: gan gynnwys yr hawl i reoli tir a chael eu diogelu rhag eu gorfodi i symud Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015: gan gynnwys gofyniad y Ddeddf i scirahu cadwyni cyflenwi tryloyw ym musnesau'r DU Strategaeth Pwysau Iach, Cymru Iach
	Diogelu hawliau Pobl Frodorol a chymunedau coedwigoedd lleol	
	Cynyddu'r defnydd o brydau maethlon a chytbwys	
	Prynu llai o fwydydd wedi'u prosesu'n helaeth, sy'n gysylltiedig â chanlyniadau iechyd gwaeth	
	Helpu plant a phobl ifanc i ddysgu am gynhyrchu bwyd, cadwyni cyflenwi a dewisiadau bwyd iach	
Economaidd	Cefnogi cyrchu lleol cynaliadwy a bywoliaethau	Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: Llewyrchus; Diwylliant bywiog a'r Gymraeg yn ffynnu; Cymunedau cydlynol; Cyfrifol ar lefel fyd-eang; Mwy cyfartal Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig: Gwaith teg a thwf economaidd; Dinasoedd a chymunedau cynaliadwy; Dim tlodi; Dim newyn; Lleihau anghydraddoldebau Strategaeth Bwyd Cymunedol (2025): cynyddu faint o fwyd Cymreig sy'n cael ei brynu mewn ysgolion ac ysbytai Cenedl Masnach Deg: ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddefnyddio caffael cyhoeddus i gefnogi Masnach Deg. Cenhadaeth Economaidd: blaenoriaethau ar gyfer economi gryfach: Cryfach, Tecach, Gwyrddach
	Cefnogi cymunedau ffermio wrth drosglwyddo i systemau ffermio gwydn a chynaliadwy, sy'n bodloni targedau allyriadau ac sy'n lleihau dibyniaeth ar borthiant wedi'i fewnforio	
	Hyrwyddo gwerthoedd brand cynaliadwy Cymru drwy gefnogi cymunedau ffermio Cymru i gynhyrchu bwyd cynaliadwy i Gymru	
	Cefnogi bywoliaethau yn y De Byd-eang drwy gaffael cynaliadwy a masnach deg	



Nwyddau sy'n risg i goedwigoedd



-  Mae Cymru yn gyfrifol am fewnforio 189,000 tonnall o soia y flwyddyn. Mae'r arwynebedd tir cyfartalog sydd ei angen dramor bob blwyddyn i gynhyrchu mewnforion soia Cymru yn 115,000 hectar – sy'n gyfwerth ag ardal tua maint Conwy.
-  Mae'r rhan fwyaf o'r mewnforion ar ffurf pryd (69 y cant) a ffa (22 y cant). Dim ond tua 9 y cant o'r mewnforion sydd mewn cynnyrch sydd yn cael eu bwyta'n uniongyrchol gan bobl. Mae'r mwyafrif llethol o'r gweddill yn cael eu defnyddio fel porthiant i dda byw.
-  Mae mewnforion soia wedi cynyddu'n gyson ers 2011, gyda chynnydd cyfartalog o dros 2,000 tonnall y flwyddyn. Gellir egluro hyn oherwydd bod nifer y dofednod yng Nghymru wedi cynyddu (o 8.1 miliwn yn 2011 i 12.1 miliwn yn 2025), yn ogystal â chynnydd yng nghyfran Cymru o gynhyrchiant dofednod y DU (o 5.0 y cant i 6.6 y cant).
-  Amcangyfrifir bod diwydiant dofednod Cymru yn defnyddio 52 y cant o'r porthiant sydd wedi cael ei fewnforio ar gyfer da byw, gyda'r sector llaeth yn defnyddio'r gweddill (27 y cant).
-  Yn aml, mae gan soia gadwyn gyflenwi gymhleth, sy'n golygu bod olrhain soia o'r fferm i'r fforc yn dasg anodd, yn enwedig ar gyfer cwmnïau a sefydliadau i lawr y gadwyn (gweler ffig 5). At hynny, nid oes unrhyw ddiffiniad a gytunwyd yn rhyngwladol yn bodoli ar hyn o bryd ar gyfer soia a gyrchwyd yn gynaliadwy.³³ Mae'r Ford Gron ar Soia Cyfrifol (RTRS) yn gynllun ardystio y mae ei feini prawf yn cynnwys dim datgoedwigo a throsi tir. Fodd bynnag, yn wahanol i logo'r Ford Gron ar Olew Palmwydd Cynaliadwy (RSPO), mae logo'r RTRS yn llawer llai tebygol o gael ei weld ar ddeunydd pacio yn y DU.
-  Mae Moratoriwm Soia'r Amazon, a sefydlwyd yn 2006, wedi bod yn allweddol i leihau datgoedwigo sydd yn cael ei achosi yn sgil tyfu soia ym Mrasil. Drwy addo peidio â phrynu ffa soia sydd yn cael ei dyfu ar dir wedi'i ddatgoedwigo ar ôl 2008, mae prif fasnachwyr wedi cyfyngu'n sylweddol ar ddatgoedwigo'n uniongyrchol ar gyfer soia. Fodd bynnag, mae heriau cyfreithiol diweddar sy'n ceisio atal y moratoriwm yn bygwth ei ddyfodol.

³² Ystadegau a gymerwyd o'r adroddiad 'Cymru a chyfrifddeb byd-eang II' sydd ar ddod, a ysgrifennwyd gan Steve Jennings (Alauda Consulting) mewn cydweithrediad â Maint Cymru a WWF Cymru.

³³ <https://www.theguardian.com/environment/2020/nov/25/how-can-we-stop-using-soya-soy-linked-to-deforestation>

Cerdyn 1: Nwydd sy'n Risg i Goedwigoedd – Cig eidion³⁴



Mae Cymru yn gyfrifol am fewnforio 10,700 tonn o gig eidion bob blwyddyn.



Mae'r rhan fwyaf o'r mewnforion ar ffurf cig eidion ffres neu wedi'i oeri (52 y cant). Mae'r gweddill naill ai wedi'i rewi neu mewn cynnyrch cig wedi'u prosesu fel cig eidion tun.



Mae'r arwynebedd tir cyfartalog sydd ei angen i ateb galw Cymru am fewnforion tua 121,000 hectar. Mae hyn yn gyfwerth ag ardal maint Wrecsam ac Ynys Môn gyda'i gilydd.

Effeithiau cymdeithasol

Mae Pobl Frodorol y Guarani yn byw ym Mrasil, Paraguay, yr Ariannin a Bolifia. Maen nhw wedi colli 95 y cant o diroedd eu hynafiaid oherwydd amaethu dwys, sy'n cynnwys cynhyrchu soia a chig eidion.

³⁴ Ystadegau a gymerwyd o'r adroddiad 'Cymru a chyfrifddeb byd-eang II' sydd ar ddod, a ysgrifennwyd gan Steve Jennings (Alauda Consulting) mewn cydweithrediad â Maint Cymru a WWF Cymru.



Camau sy'n gyfeillgar i goedwigoedd:

- Prynu a gweini llai o gig, llaeth ac wyau, ond o ansawdd gwell, fel cynnyrch lleol ac wedi'u hardystio'n foesebol (e.e. Soil Association Organic, Pasture for Life, Certified Grassfed).



- Dim ond cyrchu pysgod a bwyd môr sydd wedi'u hardystio gan y Cyngor Stiwardiaeth Forol (MSC) neu'r Cyngor Stiwardiaeth Dyframaethu (ASC). (O dan safon ASC, rhaid i ffermwyr allu dangos bod cynhwysion porthiant, gan gynnwys soia ac olew palmwydd, yn dod o ffynonellau cynaliadwy.)



- Cynyddu argaeledd ac amrywiaeth y proteinau planhigion sy'n cael eu cynnig mewn prydau cyhoeddus, e.e. ffa, ffabys, corbys a phys (gweler astudiaeth achos Cyngor Sir Fynwy ar [dudalen 52](#)).
- Cynnwys meini prawf Dim Datgoedwigo mewn contractau bwyd, a gweithio gyda chyflenwyr i'w helpu i ymateb i newidiadau, er enghraifft drwy osod targedau ar gyfer cyrchu cynhwysion mwy moesebol.
- Meddwl am ddefnyddio bwyd, nid ei wastraffu. Mae cynhyrchu bwyd yn defnyddio symiau mawr o adnoddau, gan gynnwys tir, dŵr ac egni, Gall lleihau gwastraff bwyd helpu i leihau eich effaith ar goedwigoedd ac ecosystemau bregus hanfodol eraill.

Cerdyn 2: Nwydd sy'n Risg i Goedwigoedd – Olew Palmwydd³⁵



Mae Cymru yn gyfrifol am fewnforio 51,000 tonnall o olew palmwydd, olew cnewyllyn palmwydd a phryd cnewyllyn palmwydd bob blwyddyn. Mae'r arwynebedd tir cyfartalog sydd ei angen dramor bob blwyddyn i gynhyrchu'r mewnforyn hyn yn 47,000 hectar. Mae hyn yn fwy o faint na Chastell-nedd Port Talbot.



Rhwng 2011 a 2025, mae 81 y cant o'r ôl-troed tir hwn wedi bod mewn gwledydd sydd â risg uchel neu risg uchel iawn o ddatgoedwigo a/neu broblemau cymdeithasol, gan gynnwys Indonesia, Malaysia, Papua New Guinea ac Ynysoedd Solomon. Mae hyn yn golygu mai olew palmwydd yw'r nwydd sydd â'r risg fwyaf sydd yn cael ei fewnforio gan Gymru.



Mae'r rhan fwyaf o'r mewnforyn ar ffurf pryd (38 y cant), sydd yn cael ei ddefnyddio fel porthiant i anifeiliaid, ac olew palmwydd (36 y cant), sydd yn cael ei ddefnyddio i goginio ac i bobî, ac mewn prydau parod, siocled, melysion a chynhyrchion hylendid personol fel sebon.



Gellir dod o hyd i olew palmwydd mewn dros 50 y cant o gynnyrch bwyd wedi'u pecynnu yn ein harchfarchnadoedd, ac mewn tua 70 y cant o gynnyrch cosmetig a glanedyddion cartref. Mae ganddo dros 200 o enwau, sy'n ei gwneud yn anodd iawn i'w adnabod.

³⁵ Ystadegau a gymerwyd o'r adroddiad 'Cymru a chyfrifddeb byd-eang II' sydd ar ddod, a ysgrifennwyd gan Steve Jennings (Alauda Consulting) mewn cydweithrediad â Maint Cymru a WWF Cymru.



Pam fod popeth yn cynnwys olew palmwydd a pham ddylwn ei foicotio?

Mae gan olew palmwydd oes silff hir a blas ac arogl niwtral, sy'n golygu ei fod yn gynhwysyn delfrydol mewn llawer o gymysgeddau bwyd. Gellir ei dorri i lawr a'i ffracsiynu'n nifer o gynhwysion â nodweddion gwahanol. Er enghraifft, mae'n helpu i wneud sebon yn ewynnog, lliw gwefusau'n hufennog, ac mae'n cael ei ddefnyddio'n aml fel emylsydd i uno olew a dŵr. Mae'n cael ei ddefnyddio hefyd fel cyfrwng swmpuso i ddisodli cynhwysion mwy costus (yn ariannol), er enghraifft cnau daear mewn menynddau daear. Mae'n gwnw hynod o gynhyrchu, ac yn defnyddio llawer llai o dir i gynhyrchu'r un faint o olew o gymharu â chnydau olew eraill.

Dyma sail dadl y diwydiant dros barhau i ddefnyddio olew palmwydd. Fodd bynnag, gellid tyfu cnydau olew eraill y tu allan i'r trofannau – er enghraifft, gellir cynhyrchu olew blodyn yr haul ar dir amaethyddol yn Ewrop. Fodd bynnag,

nid yw'r cnydau olew hyn yn cynnig yr un ystod eang o gynhwysion. Ein galw am gynnyrch fel bwydydd sydd yn cael eu prosesu'n helaeth, colur a glanhawyr sydd yn cynyddu'r angen am olew palmwydd, gan fod ganddo'r nodweddion penodol sydd eu hangen ar y cynnyrch hyn.

Nid yw Maint Cymru yn cefnogi boicotio olew palmwydd yn llwyr, gan ei fod yn darparu incwm i lawer o ffermwyr ar raddfa fach, ac y byddai'n lleihau'r galw ar gwmnïau i newid i ddefnyddio dulliau cynhyrchu cynaliadwy, gan ganiatáu i arferion anghynaliadwy barhau heb eu gwirio. Nid yw llawer o'r marchnadoedd byd-eang mwy yn galw am gynhyrchu cynaliadwy, felly mae angen i ni fod yn rhan o'r ateb. Trwy gynyddu'r galw am CSPO, yn hytrach na dim ond olew palmwydd confensiynol, gallwn helpu i gymell cwmnïau i wella safonau cynhyrchu er lles coedwigoedd, pobl a bioamrywiaeth.



Camau sy'n gyfeillgar i goedwigoedd:

- Bwyta/prynu llai o fwydydd wedi'u prosesu'n helaeth, fel pryddau parod, nwyddau wedi'u pobi a melysion.
- Dim ond prynu bwyd, cynnyrch glanhau a cholur sy'n cynnwys olew palmwydd wedi'i ardystio gan yr RSPO (gweler ein canllaw ar [dudalen 23](#) ar gyfer y gwahanol ardystiadau RSPO).
- Siarad gyda'ch darparwr arlwyyo neu gyflenwyr ynghylch lleihau'r defnydd o olew palmwydd yn eu cynnyrch, neu ddefnyddio olew palmwydd sydd wedi'i ardystio gan yr RSPO yn unig.
- Gall awdurdodau lleol weithio gyda phobl ifanc i godi ymwybyddiaeth o effaith bwydydd wedi'u prosesu'n helaeth, dylanwad hysbysebu bwyd sothach, a sut i baratoi a choginio bwyd maethlon.
- Monitro a lleihau gwastraff bwyd. Mae cynhyrchu bwyd yn defnyddio llawer iawn o adnoddau, gan gynnwys tir, dŵr ac egni. Gall lleihau gwastraff bwyd helpu i leihau eich effaith ar goedwigoedd ac ecosystemau hanfodol eraill.



Cerdyn 3: Nwydd sy'n Risg i Goedwigoedd – Cacao a Choffi³⁶



-  Mae mewnforyn cacao Cymru yn dod i gyfanswm o 14,000 tonnall y flwyddyn.
-  Mae'r arwynebedd tir cyfartalog sydd ei angen bob blwyddyn i ateb galw Cymru am fewnforyn yn 45,400 hectar. Mae hyn yn gyfwerth ag ardal tua maint Castell-nedd Port Talbot.
-  Maw mewnforyn cacao Cymru yn dod yn bennaf o Orllewin Affrica, gyda 66 y cant yn dod o'r Côte d'Ivoire yn unig.
-  Mae o leiaf 54 y cant o'r arwynebedd tir hwn mewn gwledydd sydd â risg uchel neu risg uchel iawn o ddatgoedwigo a phroblemau cymdeithasol difrifol, yn enwedig y Traeth Ifori a Nigeria.



-  Mae mewnforyn coffi blynyddol Cymru yn dod i gyfanswm o 54,000 tonnall. Mae'r arwynebedd tir cyfartalog sydd ei angen i ateb galw Cymru am fewnforyn coffi yn 11,500 hectar rhwng 2011 a 2025. Mae hyn yn gyfwerth ag ardal tua maint Merthyr Tudful.
-  Mae o leiaf tri chwarter (76 y cant) o'r arwynebedd tir hwn mewn gwledydd sydd â risg uchel neu risg uchel iawn o ddatgoedwigo a phroblemau cymdeithasol difrifol, yn enwedig Brasil, Fietnam, Indonesia, Colombia, Honduras a Periw.
-  Mae'r rhan fwyaf o'r coffi hwn yn cael ei dyfu ar dir a oedd cyn hynny, yn goedwig gynradd.
-  Mae planhigfeydd coffi ungnwd yn cyfrannu at ddatgoedwigo, erydu pridd ac at lygru dŵr.

³⁶ Ystadegau a gymerwyd o'r adroddiad 'Cymru a chyfrifddeb byd-eang II' sydd ar ddod, a ysgrifennwyd gan Steve Jennings (Alauda Consulting) mewn cydweithrediad â Maint Cymru a WWF Cymru.



Coffi a dyfir yn y cysgod – y dull adfywiol o dyfu coffi

Mae'r galw byd-eang cynyddol am goffi yn achosi datgoedwigo a throsi tiroedd, wrth i gynhyrchwyr glirio rhagor o dir er mwyn tyfu coffi yn yr haul.

Fodd bynnag, gellir tyfu coffi gan ddefnyddio egwyddorion amaeth-goedwigaeth, h.y. gyda choed, sy'n helpu i ddiogelu'r pridd a micro-organebau, gan ddarparu cysgod i'r planhigion coffi. Mae tyfu yn y cysgod yn arafu'r broses trydarthu, sef dŵr yn anweddu o ddail, coesynnau a blodau planhigion, ac mae hynny yn helpu i gynyddu cyfanswm y cnwd.

Mae coffi a dyfir yn y cysgod hefyd yn darparu cynefinoedd i adar a phryfed sy'n helpu i reoli'r plâu sy'n bwyta'r planhigion coffi, sy'n golygu fod angen llai o blaladdwyr o gymharu â choffi a dyfir yn yr haul. (Darllenwch ragor am goffi a dyfir yn y cysgod yn yr astudiaeth achos ysbrydolgar ynghylch [on page 44](#)).



Camau sy'n gyfeillgar i goedwigoedd:

- Hyrwyddo'r defnydd o goffi a chocoa Masnach Deg yn eich gweithle.
- Sicrhau bod digwyddiadau arlwygo yn defnyddio neu'n cynnig coffi a chocoa Masnach Deg yn unig, e.e. mewn pwdinau a melysion.
- Gall awdurdodau lleol sy'n darparu bwyd cyhoeddus, e.e. prydau ysgol, sicrhau eu bod yn defnyddio cacao Masnach Deg yn eu cylch bwydlen.
- Cymryd rhan yn y **Bythefnos Fasnach Deg** – digwyddiad blyneddol sy'n hyrwyddo ac sy'n dathlu popeth sy'n ymwneud â Masnach Deg. Gan fod Cymru yn Genedl Masnach Deg, mae llawer o gynghorau'n trefnu gweithgareddau ar gyfer y dathliad hwn.



Mae Masnach Deg yn sicrhau prisiau teg ac amodau gwaith teilwng i ffermwyr a gweithwyr yn y De Byd-eang, ac mae hefyd yn sicrhau cynaliadwyedd lleol ac yn diogelu'r amgylchedd. (Darllenwch ein [Canllaw Ardystio Moesegol ar dudalen 22](#) i ddarganfod mwy).

Mae Masnach Deg hefyd yn cynnwys maen prawf dim datgoedwigo.

Cerdyn 4: Nwydd sy'n Risg i Goedwigoedd – Pren, papur a mwydion coed



Yn gyffredinol, mae mewnforyn pren, papur a mwydion coed Cymru yn dod o wledydd yng Ngogledd America ac Ewrop sydd â llai o risg o ddatgoedwigo a phroblemau cymdeithasol. Fodd bynnag,



Mae mewnforyn pren Cymru yn defnyddio arwynebedd tir sy'n ddwywaith a hanner maint Ynys Môn bob blwyddyn. Mae mewnforyn papur a mwydion coed Cymru yn defnyddio arwynebedd tir sy'n gyfwerth â maint Ceredigion bob blwyddyn.



Mae 18 y cant o fewnforyn pren Cymru yn dod o wledydd sydd â risg uchel o ddatgoedwigo a phroblemau cymdeithasol, gan gynnwys Brasil.



Mae'r DU yn defnyddio bron ddwywaith cymaint o bapur â'r cyfartaledd ar draws y byd, h.y. 145 tonnall o'i gymharu â 55 tonnall y person.

Mae ffabrigau fel fisgos a rayon yn cael eu gwneud o fwydion pren, sy'n ffactor mawr sy'n achosi datgoedwigo trofannol, yn enwedig yn Indonesia*.

** Mae'r DU yn bumed mewnforynwr pren mwyaf Malaysia, ac yn dibynnu ar Gynllun Ardystio Pren Malaysia (MTCS) i sicrhau cynaliadwyedd y pren sy'n dod o'r wlad. Mae'r MTCS, sy'n cwmpasu tua 35 y cant o goedwigoedd naturiol Malaysia, wedi cael ei gymeradwyo gan y Rhaglen Ryngwladol ar gyfer Cymeradwyo Ardystio Coedwigoedd (PEFC), sydd yn cael ei defnyddio gan gwmnïau'r DU i asesu cydymffurfiaeth â Rheoliadau Pren y DU. Fodd bynnag, canfu ymchwiliad diweddar gan Friends of the Earth fod y cynllun yn methu atal trosi a diraddio coedwigoedd naturiol, ac yn methu cynnal hawliau Pobl Frodorol, sy'n torri rheolau'r PEFC.³⁷*



Camau sy'n gyfeillgar i goedwigoedd:

- Lleihau, Ailddefnyddio, Ailgylchu:
 - Lleihau faint o gynnyrch pren, papur a mwydion coed newydd rydych chi'n eu prynu fel busnes.
 - Ailddefnyddio – er enghraifft, dodrefn ail-law neu wedi'u hadnewyddu. Ailgylchu neu rhoi eitemau nad ydych yn eu defnyddio rhagori ffwrdd.
 - Defnyddio cynnyrch papur wedi'u hailgylchu – mae hyn nid yn unig yn diogelu coedwigoedd, ond mae hefyd yn lleihau faint o ddŵr ac egni sydd ei angen i gynhyrchu papur o fwydion coed newydd.
- Prynu cynnyrch pren, papur a mwydion sydd wedi'u hardystio gan y Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd (FSC); mae hyn yn cynnwys cynnyrch wedi'u hailgylchu. Mae'n bwysig cofio nad yw pob ardystiad, fel yr MTCS yn achos Indonesia, yn gwarantu atal datgoedwigo. Dyna pam mae'n hanfodol cynnal diwydrwydd dyladwy gyda chyflenwyr i wirio tarddiad eu cynnyrch. Dyma hefyd pam mai'r dewis gorau yw cymryd camau i leihau, ailddefnyddio ac ailgylchu cynnyrch pren, papur a mwydion.
- Sicrhau bod unrhyw ddillad neu ffabrigau rydych yn eu prynu fel busnes yn cael eu cyrchu'n gyfrifol, e.e. fisgos eco-gyfrifol wedi'i ardystio, tecstilau wedi'u hardystio gan y Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd, a chotwm Masnach Deg.




³⁷ <https://policy.friendsoftheearth.uk/sites/default/files/documents/2026-03/FOE%20Timber%20Report%20-%20accessible.pdf>

Card 5: Nwydd Sy'n Risg i Goedwigoedd – Buddsoddiadau a phensiynau



Mae llawer o'n buddsoddiadau ariannol, fel pensiynau, wedi'u cysylltu â gweithgareddau sy'n niweidio'r amgylchedd, gan gynnwys datgoedwigo a throsi cynefinoedd. Yn ôl ymchwil gan Maint Cymru a Global Canopy, mae Partneriaeth Pensiynau Cymru (WPP), sy'n buddsoddi ar ran wyth cronfa bensiwn awdurdodau lleol yng Nghymru, yn buddsoddi bron i 10 y cant o'r cyfanswm o £22.5 biliwn mewn buddsoddiadau mewn cleientiaid neu ddaliadau sydd â risg uchel o ddatgoedwigo.³⁸ Mae hyn yn digwydd drwy ymglymiad cwmnïau mewn cadwyni cyflenwi ar gyfer nwyddau sy'n risg i goedwigoedd ac mewn gweithgareddau tebyg sy'n peri risg, fel mwyngloddio a chynhyrchu tanwyddau ffosil.



Canfu'r ymchwil fod £1 ym mhob £10 sydd yn cael ei fuddsoddi gan Bartneriaeth Pensiynau Cymru mewn perygl uchel o ariannu datgoedwigo yn y ffordd hon.

Mae hyn yn cael effaith ddinistriol ar Bobl Frodorol, bioamrywiaeth, yr hinsawdd, ac ar iechyd coedwigoedd trofannol.

Mae cronfeydd pensiwn awdurdodau lleol yn meddu ar ddylanwad cryf oherwydd eu buddsoddiadau. Drwy weithio gyda rheolwyr asedau a chwmnïau, gallant annog newidiadau sy'n lleihau'r risg o gefnogi datgoedwigo.



Camau sy'n gyfeillgar i goedwigoedd:

- Newid i fanc, yswiriwr neu gronfa bensiwn foesegol i sicrhau nad yw eich busnes yn ariannu diwydiannau dinistriol, fel cynhyrchu cig eidion dwys, soia ac olew palmwydd.
- Ymgysylltu â'ch rheolwr asedau neu'n uniongyrchol gyda'r cwmnïau/cleientiaid rydych yn buddsoddi ynddynt i ymchwilio i'ch risg o ddatgoedwigo drwy fuddsoddiadau ariannol.
- Cynnwys meini prawf dim datgoedwigo mewn polisiau buddsoddi, a sicrhau nad yw arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio i ariannu cadwyni cyflenwi a chwmnïau sy'n achosi datgoedwigo.
- Sefydlu polisi cyhoeddus cryf sy'n ymrwymo i ddileu datgoedwigo, trosi tir, a cham-drin hawliau dynol cysylltiedig o fewn amserlen uchelgeisiol.
- Ail-gyfeirio buddsoddiadau i brosiectau sy'n gyfeillgar i natur ac sy'n bositif i'r hinsawdd, fel y rhai sy'n hyrwyddo ffermio adfywiol a chynaliadwy, sy'n cefnogi hawliau tiroedd Pobl Frodorol ac/neu sy'n adfer cynefinoedd.

I gael rhagor o wybodaeth am gyllid moesegol, darllenwch [ganllaw Maint Cymru ar bensiynau'r sector cyhoeddus sydd ddim yn achosi datgoedwigo.](#)

³⁸ <https://sizeofwales.org.uk/wp-content/uploads/2024/05/Saving-for-the-future-Size-of-Wales-public-pension-report.pdf>

Canllaw Ardystio Moesegol

Mae'r canllaw cryno hwn yn darparu'r safonau a'r ymrwymïadau allweddol ar gyfer y prif gynlluniau ardystio moesegol a geir yn y DU.*



Pasture for Life

- Mae anifeiliaid yn cael eu pesgi ar borfa a dim byd arall
- Yn cefnogi iechyd a lles anifeiliaid
- Yn cefnogi bywyd gwyllt a phriddoedd iach
- Mae'n gwahardd porthiant sy'n seiliedig ar soia



Certified Grassfed (A Greener World)

- Mae anifeiliaid yn cael eu pesgi ar borfa a dim byd arall
- Yn cefnogi iechyd a lles anifeiliaid
- Yn cefnogi bioamrywiaeth
- Mae'n gwahardd porthiant sy'n seiliedig ar soia



Cymdeithas Organig y Pridd

- Gwell iechyd a ffrwythlondeb naturiol yn y pridd
- Cynyddu storio carbon mewn pridd
- Yn cefnogi bywyd gwyllt a bioamrywiaeth
- Yn lleihau'r risg o ddatgoedwigo yn sylweddol



European Union Organic

- Gwell iechyd a ffrwythlondeb naturiol yn y pridd
- Safonau lles uwch ar gyfer da byw organig
- Yn gwahardd defnyddio planhigion neu anifeiliaid GMO
- Yn lleihau'r risg o ddatgoedwigo yn sylweddol



Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd

- Mae'n gwahardd datgoedwigo, diraddio coedwigoedd a thorri coed yn anghyfreithlon
- Mae'n hyrwyddo lles cymdeithasol ac economaidd, e.e. gweithwyr a chymunedau
- Mae'n mynnu bod hawliau Pobl Frodorol yn cael eu nodi a'u cynnal



Cyngor Stiwardiaeth Dyframaethu (ASC)

- Mae'n rhaid i gynhwysion bwydydd anifeiliaid gan gynnwys olew palmwydd a soia, ddod o ffynonellau cynaliadwy
- Ni ellir lleoli ffermydd perdys a adeiladwyd ar ôl 1999 mewn ecosystemau mangrof a gwlyptiroedd naturiol eraill



Cyngor Stiwardiaeth Morol

- Cynnyrch pysgod a bwydydd môr wedi'u dal yn y gwyllt (mae'n diddymu'r angen am fewnbynnau porthiant allanol)
- Mae'n lleihau'r pwysau ar gyflenwadau o bysgod ac amgylcheddau morol



Masnach Deg

- Safonau byw uwch gyda phrisiau teg, amodau gwaith gweddus a mynediad at wasanaethau sylfaenol
- Diogelu'r amgylchedd ac addasu i'r newid hinsawdd
- Mae'n cefnogi cydraddoldeb rhwng y rhywiau
- Mae'n cynnwys maen prawf dim datgoedwigo



Bord Gron ar Olew Palmwydd Cynaliadwy (RSPO)

- Dim plannu pethau newydd ar fawndiroedd ar ôl 2018
- Dim datgoedwigo na llosgi tir ymhellach
- Diogelu rhywogaethau prin, dan fygythiad neu mewn perygl (RTE) drwy annog arferion rheoli tir yn gynaliadwy a chadw “ardaloedd cadwraeth o werth uchel”.
- Ymrwymiad i leihau llygredd ac allyriadau nwyon tŷ gwydr drwy arferion rheoli tir cynaliadwy ac atal trosti tir.

Mae pedair lefel o ardystiad gan yr RSPO. Fodd bynnag, dim ond dau o'r rhain sy'n cael eu hardystio'n ffisegol ac sy'n sicrhau y gallir ei olrhain:



Wedi'i Ardystio gan yr RSPO

Mae'r label hwn yn cael ei ddefnyddio ar gynnyrch sy'n cynnwys olew palmwydd wedi'i ardystio'n ffisegol gan yr RSPO – mae hyn yn golygu y gallir ei olrhain yn llwyr ar hyd y gadwyn gyflenwi gyfan. Yn yr achos hwn, mae'r model cadwyn gyflenwi naill ai'n un o'r isod:

- **IP (Hunaniaeth wedi'i Sicrhau)** – mae'r olew palmwydd cynaliadwy ardystiedig (CSPO) yn gallu cael ei olrhain yn unigryw i un felin sydd wedi'i hardystio gan yr RSPO a'i sylfaen gyflenwi ardystiedig.
- **SG (Wedi'i Wahanu)** – mae'r CSPO yn cael ei gadw ar wahân drwy gydol y gadwyn gyflenwi. Mae'r olew palmwydd yn dod yn gyfan gwbl o ffynhonnell ardystiedig.



Mae dau ardystiad arall yn bodoli, ond nid ydy'r rhain yn gwarantu y gallir olrhain yr olew palmwydd:

- **MB (Balans Más)** – mae'r CSPO yn cael ei gymysgu gydag olew palmwydd confensiynol ac yn cael ei fonitro'n weinyddol.
- **Credydau'r RSPO** – nid yw'r gadwyn gyflenwi'n cael ei monitro ar gyfer presenoldeb olew palmwydd cynaliadwy. Gall gweithgynhyrchwyr a manwerthwyr brynu credydau gan dyfwr, melinau ac amaethwyr ar raddfa fach sydd wedi cael eu hardystio gan yr RSPO, tra'n parhau i gyrchu olew palmwydd anghynaliadwy.

* Er y gall ardystiadau moesegol gefnogi olrhain a lleihau'r risg o ddatgoedwigo yn sylweddol, ar hyn o bryd, nid oes un cynllun sy'n gallu gwarantu 100% nad oes unrhyw ddatgoedwigo wedi digwydd. Dyna pam y dylid defnyddio cyfres lawn o fesurau i leihau'r risg o ddatgoedwigo – nid dibynnu ar ardystiadau yn unig. Wrth ddefnyddio ardystiadau moesegol, mae'n bwysig o hyd sicrhau diwydrwydd dyladwy.

Nodiadau ar olew palmwydd

* Ar hyn o bryd, nid oes digon o olew palmwydd cynaliadwy ardystiedig (CSPO) yn cael ei gynhyrchu'n fyd-eang i ateb y galw. Felly, gellir defnyddio'r ardystiad Cydbwysedd Cymysg/ Màs i helpu cyflenwyr a chynhyrchwyr i ddechrau symud tuag at gyrchu olew palmwydd CSPO yn unig, tra'n cynyddu'r galw am gynhyrchu cynaliadwy. Fodd bynnag, mae'n hanfodol i gwmnïau a sefydliadau sy'n gweithio tuag at beidio â chyfrannu at ddatgoedwigo, osod targedau i ddechrau dileu'r defnydd o olew palmwydd heb ei ardystio/anghynaliadwy yn raddol.

** Nid yw labelu bob amser yn glir, felly mae'n gallu bod yn anodd iawn i'r defnyddiwr wybod beth maen nhw'n ei gael. Mae cysylltu â'ch cyflenwyr a chynnal archwiliad olew palmwydd yn gamau hanfodol wrth sefydlu eich llinell sylfaen a gosod targedau i gyrchu olew palmwydd sydd wedi'i ardystio gan yr RSPO yn unig.

*** Mae aelodaeth o'r RSPO wedi'i rannu'n dri chategori: Arferol (Ordinary), Cyswllt (Associate) ac Ymgysylltiol (Affiliate). Mae gan y categorïau hyn ofynion adrodd a hawliau pleidleisio gwahanol yng Nghyfarfod Cyffredinol yr RSPO. Mae categori aelodaeth y sefydliad yn seiliedig ar eu rôl yn y gadwyn gyflenwi olew palmwydd a faint o olew palmwydd mae'n ei brynu, ei ddefnyddio neu'n ei fasnachu bob blwyddyn.³⁹ O ran adrodd, mae'n ofynnol i aelodau Arferol ac Ymgysylltiol gydymffurfio â Chod Ymddygiad Aelodau 'r RSPO, ac adrodd bob blwyddyn ar eu cynnydd yn ei erbyn.⁴⁰ Gelwir yr adroddiad hwn yn Gyfathrebiad Blyneddol o Gynnydd (ACOP), ac mae'n amlinellu cynnydd aelodau'r RSPO tuag at ddefnyddio dim ond 100 y cant o Olew Palmwydd Cynaliadwy wedi'i Ardystio gan yr RSPO. Nid yw'n ofynnol i aelodau Cyswllt gyflwyno adroddiadau, sy'n golygu y gallant honni eu bod yn dilyn egwyddorion RSPO heb o reidrwydd gymhwyso'r ardystiad yn llawn ar draws y gadwyn gyflenwi. Mae hefyd yn ofynnol i bob aelod o'r RSPO gyhoeddi rhestrau o'u melinau olew palmwydd yn y gadwyn gyflenwi, gan gynnwys melinau sydd wedi'u hardystio gan yr RSPO a rhai sydd heb eu hardystio.⁴¹ Fodd bynnag, yn ôl gwefan aelodaeth yr RSPO, nid yw llawer o aelodau'n cyhoeddi'r adroddiadau hyn.

³⁹ <https://rspo.org/as-an-organisation/membership/membership-categories/>

⁴⁰ https://rspo.org/wp-content/uploads/RSPO_Membership_Rules_20202.pdf

⁴¹ <https://rspo.org/mill-list-submission/>





Llwybr Dysgu Dim Datgoedwigo



Llwybr Dysgu Dim Datgoedwigo

Mae'r adran hon yn esbonio'r Llwybr Dysgu Dim Datgoedwigo, sydd wedi cael ei ddatblygu gan Maint Cymru i gefnogi cyrff cyhoeddus, busnesau, ysgolion a chymunedau ar eu taith i stopio cyfrannu at ddatgoedwigo.

Mae rhai sefydliadau wedi ymrwymo i ddod yn **Hyrwyddwyr Dim Datgoedwigo**, ac i weithredu fel eiriolwyr dros goedwigoedd trofannol, pobl a natur. Er mwyn ennill statws Hyrwyddwr Dim Datgoedwigo, rhaid i sefydliadau gwblhau pob cam o'r llwybr dysgu. I gael rhagor o wybodaeth

am y broses hon, darllenwch Siarter a Chynllun Gweithredu Hyrwyddwyr Dim Datgoedwigo yn Atodiad A.

Nid ydym yn disgwyl i bob sefydliad sy'n dymuno lleihau ei risg o ddatgoedwigo ddod yn Hyrwyddwyr Dim Datgoedwigo. Fodd bynnag, rydym yn annog pob sefydliad i ystyried ac ymgysylltu ag unrhyw un o'r camau o fewn y llwybr. Rydym hefyd yn cydnabod bod stopio Wcyfrannu at ddatgoedwigo yn llwyr yn heriol iawn, oherwydd cymhlethdod cadwyni cyflenwi byd-eang a lleol. Serch hynny, mae pob cam a gymerir ar hyd y llwybr yn helpu i leihau'r risg o ddatgoedwigo ac yn cyfrannu at ganlyniadau cadarnhaol i goedwigoedd a chymunedau.



Dysgu

Dyma'r cam cyntaf ar hyd y llwybr dysgu dim datgoedwigo. Gallwch ddechrau drwy ddarllen y pecyn adnoddau hwn, dysgu am y gwahanol nwyddau sy'n risg i goedwigoedd rydym yn eu defnyddio yng Nghymru, ac am y gwahanol systemau ardystio sy'n gallu helpu i leihau'r risg o ddatgoedwigo.

Gallech hefyd drefnu sesiwn hyfforddi/gweithdy dim datgoedwigo sydd yn cael ei ddarparu gan Maint Cymru ar gyfer aelodau o staff, fel: staff sydd â rolau arwain neu strategol mewn llunio polisiau yn y sefydliad; ymarferwyr caffael e.e. prynwyr a rheolwyr cysylltiadau sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda chyflenwyr; arweinwyr hinsawdd a natur ac ymarferwyr cynaliadwyedd, neu unrhyw weithiwr sy'n codi archebion prynu ar gyfer cynnyrch bwyd neu nwyddau eraill sy'n risg i goedwigoedd.



Myfyrio

Asesu arferion y sefydliad a'r risg

Mae'r adran hon wedi cael ei dylunio i'ch helpu chi i sicrhau'r canlynol:

- Adolygu unrhyw bolisiau sy'n cefnogi cyrchu cynaliadwy, a nodi sut mae'r rhain yn cael eu gweithredu.
- Nodi a oes unrhyw risgiau sy'n achosi datgoedwigo wedi'u cynnwys mewn buddsoddiadau ariannol, gan gynnwys cronfeydd pensiwn awdurdodau lleol.

Mae templed cynhwysfawr i'ch helpu i adolygu polisiau ac arferion y sefydliad ar gael [yma](#).

Caffael cynnyrch a chynhwysion sy'n risg i goedwigoedd

- 1. A fydd eich sefydliad yn prynu bwyd a lluniaeth at unrhyw ddiben e.e., ar gyfer gwasanaeth arlwyysysbytai, ffreuturau staff neu gyfarfodydd a digwyddiadau ac ati.**
 - A** Bydd – Oherwydd bod nwyddau sy'n risg i goedwigoedd yn cael eu defnyddio mor aml mewn systemau bwyd byd-eang, mae llawer o'r bwyd rydym yn ei fwyta yn gysylltiedig â'r risg o ddatgoedwigo mewn mannau trofannol, trosi tir a/neu effeithiau cymdeithasol. Gellir lleihau risgiau ac effeithiau cysylltiedig trwy gyrchu'n gynaliadwy.
 - B** Na fydd – Mae eich risg o gyfrannu at ddatgoedwigo drwy gynhyrchion bwyd yn debygol o fod yn isel.
- 2. A fydd eich sefydliad yn prynu unrhyw nwyddau pren, papur neu fwydion coed, fel dodrefn neu hancesi papur?**
 - A** Bydd – Dylai unrhyw gynnyrch pren, papur a mwydion coed gael eu cyrchu'n gynaliadwy i sicrhau bod coedwigoedd yn cael eu rheoli'n gynaliadwy; h.y. dim datgoedwigo na diraddio coedwigoedd, a dim torri coed yn anghyfreithlon.
 - B** Na fydd – Mae eich risg o gyfrannu at ddatgoedwigo drwy bren, papur a mwydion yn debygol o fod yn isel.
- 3. A fydd eich sefydliad yn prynu unrhyw gynnyrch cosmetig neu lanhau i'w defnyddio yn ei adeiladau, e.e. glanedydd, hylif golchi llestri, hylif golchi dwylo, sebon neu siampŵ?**
 - A** Bydd – mae tua 70 y cant o nwyddau cosmetig a glanedyddion i olchi'r cartref yn cynnwys cynhwysion sy'n deillio o olew palmwydd. Os nad yw'r rhain wedi'u cyrchu'n gyfrifol nac wedi'u hardystio, byddant yn cario mwy o risg o fod yn gysylltiedig â datgoedwigo trofannol a throsi cynefin.
 - B** Na fydd – Mae eich risg o gyfrannu at ddatgoedwigo drwy gosmetigau a chynhyrchion glanhau yn debygol o fod yn isel.
- 4. Oes gan eich sefydliad bolisiau a phrosesau yn eu lle sy'n cefnogi cyrchu cynaliadwy, ac sy'n cynnwys ymrwymïadau i sicrhau dim datgoedwigo a dim trosi tir? Er enghraifft, defnyddio cynhyrchion sydd ag ardystiadau moesegol?**
 - A** Oes – Os mai Oes, pa brosesau sy'n bodoli i gymhwyso'r polisiau hyn ar wahanol gamau o gaffael, e.e. ydyn nhw wedi'u hintegreiddio â'r broses contractio neu ydy rhai cynnyrch penodol yn gyfyngedig neu heb fod ar gael ar y systemau archebu?
 - B** Nac Oes – Os mai Nac oes, oes gan eich sefydliad ddyddiad terfyn ar gyfer prynu cynnyrch anghynaliadwy? E.e. ymrwymiad cyhoeddus i leihau'r defnydd o gynnyrch sy'n cynnwys olew palmwydd anghynaliadwy yn raddol erbyn dyddiad penodol.

* Mae rhai cwmnïau yn sicrhau ardystiad moesegol i'r nwyddau maen nhw'n eu cynhyrchu, ond nid yw hyn yn gymwys o reidrwydd i'r holl gynnyrch maen nhw'n eu gwerthu. Dylid cynnal prosesau diwydrwydd dyladwy i sicrhau fod unrhyw ardystiadau yn gymwys i'r cynnyrch eu hunain, nid i'r cyflenwr yn unig.

Buddsoddiadau sy'n risg i goedwigoedd

1. Ydy eich sefydliad yn buddsoddi mewn cwmnïau sy'n cyfrannu at ddatgoedwigo, er enghraifft drwy gynhyrchu nwyddau amaethyddol sy'n risg i goedwigoedd neu drwy weithgareddau fel mwyngloddio, datblygu seilwaith neu adeiladu?

Os ydy, ystyriwch asesu i ba raddau mae eich sefydliad yn agored i'r risg o ddatgoedwigo drwy weithgareddau buddsoddi. Gall hyn helpu i dargedu camau gweithredu ar feysydd buddsoddi penodol - fel ymgysylltu â rheolwyr asedau neu weithio'n uniongyrchol gyda chleientiaid/deiliaid buddsoddiadau, a'u hannog i wella eu harferion mewn perthynas â datgoedwigo.

2. Oes gan eich sefydliad bolisi buddsoddi moesegol sy'n cynnwys meini prawf dim datgoedwigo yn ei benderfyniadau ynghylch buddsoddiadau?

Os nac oes, ystyriwch ddatblygu polisi buddsoddi â therfyn amser sy'n cynnwys meini prawf dim datgoedwigo. Gellir cyfathrebu hyn i'ch rheolwyr asedau a'ch cleientiaid/deiliaid buddsoddiadau i ysgogi newid yn eu harferion, ac i lywio cynlluniau a blaenoriaethau buddsoddi eich sefydliad wrth symud ymlaen.

3. Ydy eich pensiwn staff presennol gyda darparwr moesegol?

- a. Ydy
- b. **Nac ydy** - mae llawer o gronfeydd pensiwn yn gallu bod yn gysylltiedig â datgoedwigo, colli cynefinoedd a cham-drin hawliau dynol. Gallwch alw ar eich darparwr pensiwn i ymrwymo i ddileu datgoedwigo a throsi cynefinoedd o'i bortffolios buddsoddi, ac/neu ystyried newid i ddarparwr moesegol.

Archwilio

Ar ôl i chi adolygu eich polisïau a'ch arferion, defnyddiwch y templed hwn i gofnodi unrhyw nwyddau neu wasanaethau sy'n peri risg i goedwigoedd rydych chi'n eu caffael, ynghyd ag unrhyw ardystidau moesegol, sgoriau risg ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall. Pwrpas yr archwiliad hwn ydy darparu man cychwyn, ac eich helpu chi i ddeall y mathau a'r symiau o gynhyrchion neu gynhwysion sy'n peri risg i goedwigoedd rydych yn eu defnyddio – naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol (er enghraifft, drwy wasanaethau fel arlwy). Bydd hyn yn eich helpu i ddarganfod ble mae'r prif risgiau a lle dylid targedu.



Gweithredu

Mae'r adran hon yn cyfeirio at ardystiadau moesegol perthnasol ar gyfer pob nwydd sy'n risg i goedwigoedd ac yn cynnig dulliau cefnogol, fel bancio a buddsoddi moesegol, a allai helpu i leihau datgoedwigo, colli cynefinoedd ac effeithiau cymdeithasol.

Mae amrywiaeth o ardystiadau ar gael sy'n helpu i olrhain cynnyrch ac sy'n hyrwyddo safonau cymdeithasol ac amgylcheddol uwch, tra hefyd yn cynyddu'r galw am gynnyrch sydd wedi'u cyrchu'n gyfrifol. Fodd bynnag, nid yw ardystio ar ei ben ei hun yn ddigon – mae dal yn hanfodol cynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy. Cyn, ac yn ystod y broses gaffael, dylid rhoi blaenoriaeth i gynnyrch sydd wedi'u cyrchu'n foesegol ac sydd wedi'u hardystio. Gellir gwneud hyn drwy ymgysylltu'n gynnar â chyflenwyr, rheoli cysylltiadau yn barhaus, a thrwy roi mwy o bwyslais ar gynnyrch wedi'u hardystio o fewn eich meini prawf gwerthuso.

Amrywiaethu ffynonellau protein

Cynyddu proteinau planhigion a chynnwys detholiad amrywiol o ffrwythau, llysiau, cnau a hadau. Darllenwch ein hastudiaeth achos ar [dudalen 56](#) am ysbytai Dinas Efrog Newydd sy'n cynnig prydau planhigion fel yr opsiwn 'safonol' i gleifion, a'r manteision niferus y mae hyn yn eu cyflwyno.

Mae pylsys protein uchel, fel ffa, ffaclys, corbys a phys, a dewisiadau protein amgen, fel tofu a tempeh organig (o ffa soia organig), yn uchel mewn protein, calsiwm, haearn a ffibr, sy'n golygu eu bod yn ddewis amgen delfrydol yn lle proteinau anifeiliaid. Mae newid o fwyta cig i fwyta proteinau planhigion – neu gyfuno proteinau planhigion ac anifeiliaid er mwyn lleihau'r defnydd cyffredinol o gig – yn gallu gwneud gwahaniaeth sylweddol. Gall hyn helpu i leihau'r risg o ddatgoedwigo, arbed costau i ysgolion, lleihau effaith amgylcheddol cynhyrchu bwyd, a chefnogi arferion ffermio sy'n gyfeillgar i'r hinsawdd a natur. Darllenwch

ein Hadroddiad Livewell⁴² i weld sut y gall newid cig am broteinau planhigion arwain at fanteision economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol sylweddol yn lleol ac yn fyd-eang.

Cynyddu swm y cynhwysion lleol, tymhorol, wedi'u cyrchu'n gynaliadwy.

Mae cynnyrch tymhorol a dyfir yn lleol nid yn unig yn cefnogi tyfwyr a ffermwyr lleol, ond mae'n helpu i leihau'r milltiroedd teithio sy'n gysylltiedig â chynnyrch wedi'i fewnforio a'r egni sydd ei angen i'w dyfu y tu allan i'w dymor.

Yn yr un modd ag y mae amrywiaeth o blanhigion yn dda ar gyfer ecosystemau natur, mae detholiad amrywiol o blanhigion yn hanfodol i gynnal microbiom iach yn y coluddyn – sef ecosystem ein corff ninnau.⁴³ Mae'r ymchwil yn awgrymu y dylem fod yn bwyta o leiaf 30 planhigyn gwahanol bob wythnos.⁴⁴

⁴² <https://sizeofwales.org.uk/wp-content/uploads/2026/01/Assessing-the-Viability-of-a-Livewell-and-Deforestation-Free-School-Menu-in-Wales-3.pdf>

⁴³ <https://www.sciencedaily.com/releases/2018/05/180515092931.htm>

⁴⁴ <https://www.sciencedirect.com/science/article/pii/S2212877816000387>

Cig, cynnyrch llaeth ac wyau

(Yn cynnwys cig eidion wedi'i fewnforio o Dde America a soia ac olew palmwydd cudd sydd yn cael ei gynnwys mewn porthiant anifeiliaid)

Gweinwch lai o gig, cynnyrch llaeth ac wyau, ond dewiswch opsiynau o ansawdd uwch, fel cynnyrch organig lleol neu gynnyrch wedi'u pesgi 100 y cant ar borfa. Mae ymchwil yn dangos bod cefnogaeth fawr i fwyd organig yn y DU, gyda 83 y cant o aelwydydd yn prynu eitemau organig, yn aml am resymau iechyd, amgylcheddol a lles anifeiliaid, ac i 'gefnogi Ffermwyr Prydain'.⁴⁵

Mae'r ardystiadau'n cynnwys:

- **Soil Association Organic**, sy'n gwarantu dulliau ffermio cyfeillgar i natur.
- **Pasture for Life** a **Certified Grassfed**, sy'n gwarantu cig eidion, cig oen a chynnyrch llaeth wedi'u pesgi 100 y cant ar laswellt.

Ceisiwch osgoi caffael cig eidion wedi'i fewnforio o Dde America, gan gynnwys cig ffres ac wedi'i rewi heb ei brosesu, yn ogystal â chynhyrchion wedi'u prosesu fel corn-bîff a byrgys. Mae mewnforion cig eidion o Dde America yn gysylltiedig â risg uchel o ddatgoedwigo ac/neu broblemau cymdeithasol.

Pysgod a bwyd môr

Ceisiwch gaffael pysgod a bwyd môr a gyrchwyd yn gynaliadwy yn unig. Mae hyn yn cynnwys:



Cynnyrch pysgod a bwyd môr gwyllt sydd wedi cael eu hardystio gan y **Cyngor Stiwardiaeth Forol** (MSC). Mae hyn yn dileu'r angen am fwyd a gyrchwyd yn anghynaliadwy o soia ac olew palmwydd, ac yn helpu i leihau'r pwysau ar stociau pysgod ac amgylcheddau morol.



Cynnyrch pysgod a bwyd môr fferm sydd wedi cael eu hardystio gan y **Cyngor Stiwardiaeth Dyframaethu** (ASC). I gyflawni statws ardystiedig, mae'n rhaid i ffermwyr allu dangos bod cynhwysion bwyd, sy'n cynnwys soia ac olew palmwydd, yn dod o ffynonellau cynaliadwy. Yn ogystal, mae safon berdys yr ASC yn golygu na all ffermydd a sefydlwyd ar ôl 1999 gael eu lleoli mewn ecosystemau mangrof a gwlyptiroedd naturiol eraill.



⁴⁵ <https://wickedleeks.riverford.co.uk/news/organic-market-growth-outpaces-non-organic-with-83-of-uk-households-buying-organic/?utm>

Olew Palmwydd

Dylech fwyta a chaffael llai o Fwydydd Wedi'u Prosesu'n Helaeth. Mae mwy na hanner y bwydydd wedi'u pecynnu yn cynnwys rhyw fath o olew palmwydd. Mae bwyta Bwydydd Wedi'u Prosesu'n Helaeth hefyd yn gysylltiedig â chynnydd mewn cyfraddau diabetes, gordewdra ac iechyd cyffredinol gwaeth.



Dylech gaffael cynnyrch sy'n cynnwys olew palmwydd sydd wedi'u hardystio'n ffisegol gan y [Ford Gron ar Olew Palmwydd Cynaliadwy \(RSPO\)](#) yn unig h.y. gan gadwyni cyflenwi â Hunaniaeth wedi'i Sicrhau neu Wedi'i Wahanu.

(Ewch i [dudalen 23](#) i weld gwahanol ardystiadau'r RSPO).

Cliciwch [yma](#) am restr siopa o frandiau bwyd cyffredin sy'n cynnwys olew palmwydd o gadwyni cyflenwi sydd wedi cael eu hardystio'n ffisegol gan yr RSPO.

Cacao a choffi



Dylech brynu dim ond coffi, cacao a chynhyrchion siocled [Masnach Deg](#).

Mae Masnach Deg yn sicrhau prisiau teg ac amodau gweithio boddhaol i ffermwyr a gweithwyr yn y De Bydeang, ac mae hefyd yn sicrhau cynaliadwyedd ac yn diogelu'r amgylchedd. Trwy gyfrwng hyfforddiant, mae ffermwyr yn cael eu cynorthwyo i gychwyn defnyddio arferion sy'n fwy ecogyfeillgar, fel annog bywyd gwyllt i helpu i reoli plâu a chlefydau. Ers 2019, mae Masnach Deg yn cynnwys maen prawf dim datgoedwigo.

Mae rhagor o wybodaeth am sut mae Masnach Deg yn llesol i bobl a'r amgylchedd ar gael yn yr astudiaeth achos ar [Tyfu coffi ar Fynydd Elgon, Uganda ar dudalen 44](#).



Meddyliwch am fwyta bwyd, nid gwastraffu bwyd: Lleihau, Ailddefnyddio, Ailddosbarthu, Ailgylchu

Mae cyfanswm gwastraff bwyd cartrefi a busnesau yn y DU yn 9.5 miliwn tonnell fetrig (Mt) bob blwyddyn, ac mae'n cynhyrchu allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n fwy na 25 Mt. Yn ychwanegol, gellid mwyn gwirionedd, fwyta 70 y cant o'r bwyd hwn sydd yn cael ei wastraffu.⁴⁶ Mae cynhyrchu bwyd yn defnyddio cyfansymiau enfawr o adnoddau, yn cynnwys tir, dŵr ac ynni. Felly, yn ogystal â helpu i leihau allyriadau, gall lleihau cyfanswm y bwyd sydd yn cael ei wastraffu ddiogelu coedwigoedd ac ecosystemau trwy leihau'r galw am nwyddau sy'n risg i goedwigoedd a fydd yn y pen draw, yn cael eu gwastraffu.

Mae darparwyr bwyd y sector cyhoeddus yn gallu lleihau gwastraff bwyd drwy'r ffyrdd canlynol:

- Sicrhau bod arferion da yn cael eu dilyn mewn ceginau, er enghraifft, rheoli stoccrestrau a chynllunio bwydlenni.
- Hyfforddi staff ynghylch sut i leihau cyfanswm gwastraff bwyd, fel rhoi cyngor ar gynhyrchu a chyflwyno bwyd, a ffyrdd o weini bwyd. Mae'r cwmni gweithgynhyrchu bwyd apetito yn darparu [canllaw](#) rhad ac am ddim i ddarparwyr prydau gofal iechyd, i'w helpu i leihau gwastraff bwyd mewn lleoliadau ysbytai.
- Cyfrifo gwaelodlin gwastraff bwyd er mwyn targedu ymyriadau.
- Blaenoriaethu bwyd tymhorol i leihau milltiroedd bwyd a gwastraff; mae'r GIG yn darparu [calendr tymhorol](#) rhad ac am ddim i ddarparwyr prydau ei ddefnyddio wrth ddewis cynhwysion.
- Rhoi bwyd dros ben i elusennau, e.e. gyda'r sefydliad [FareShare](#). Bu Ymddiriedolaeth GIG Guy's a St Thomas' yn gweithio gyda'r sefydliad dosbarthu bwyd [Olio](#) i ailddosbarthu prydau ysbyty wedi'u coginio nad oedd eu hangen i'r gymuned leol.
- Gwella cyfleusterau storio bwyd mewn ceginau cymunedol, ffreuturau staff a mannau paratoi bwyd.
- Trefnu digwyddiad 'Cinio a Dysgu' ar gyfer staff neu godi ymwybyddiaeth am effaith gwastraff bwyd, er enghraifft, cymryd rhan yn yr Wythnos Gweithredu ar Wastraff Bwyd.
- Sicrhau bod cyfleusterau compostio/ ailgylchu bwyd ar gael i bob aelod o'r staff



⁴⁶ <https://www.bartecmunicipal.com/insight/uk-food-waste-statistics-2025-what-do-the-facts-say/>

Cynnyrch pren, papur a mwydion coed

I ddechrau, lleihau caffael cynnyrch pren, papur a mwydion drwy fabwysiadu dull gweithredu economi gylchol / neu'r dull 'Defnyddio, Ailddefnyddio ac Ailgylchu'.

I ddechrau, lleihau caffael cynnyrch pren, papur a mwydion drwy fabwysiadu dull gweithredu economi gylchol / neu'r dull 'Defnyddio, Ailddefnyddio ac Ailgylchu'.

Mae economi linol yn economi sy'n cymryd, yn gwneud ac yn cynhyrchu gwastraff. Mae economi gylchol yn economi sy'n ailddefnyddio, ailgylchu, atgyweirio ac sy'n ail-wneud cynnyrch, deunyddiau ac elfennau sydd yn bodoli'n barod.

Mae'r modelau cylchol wedi bod o gwmpas ers tro, e.e. dillad ail law, adnewyddu dodrefn a chynlluniau dychwelyd poteli, a nawr mae llawer o lywodraethau a sefydliadau'n mabwysiadu'r dull gweithredu hwn i helpu i leihau allyriadau carbon a diogelu adnoddau gwerthfawr.

Mae enghreifftiau ysbrydoledig o arferion cylchol ar waith yn cynnwys [Iechyd Cyhoeddus Cymru yng Nghaerdydd](#) a [Thrafnidiaeth Cymru ym Mhontypridd](#).

Dylech wneud yn siŵr fod unrhyw gynnyrch pren, papur a mwydion coed newydd naill ai yn deillio o ffynonellau sydd wedi'u hailgylchu neu wedi'u hardystio gan y [Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd](#) (FSC).



Mae'r Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd yn gwahardd datgoedwigo, diraddio coedwigoedd a thorri coed yn anghyfreithlon mewn mannau ardystiedig, ac mae'n cynnwys safonau cymdeithasol, fel adnabod a chynnal hawliau Pobl Frodorol.

Mae'r Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd hefyd yn ardystio cynnyrch coedwigoedd, yn ogystal â thecstilau (e.e. deunyddiau wedi'u gwneud o fwydion coed), rwber, bambŵ a chorc.



Gwasanaethau bancio a buddsoddiadau moesegol

Mae llawer o'n buddsoddiadau ariannol, fel pensiynau, yn gysylltiedig â gweithgareddau sy'n niweidio'r amgylchedd, gan gynnwys datgoedwigo a throsi cynefinoedd.

Yn ôl ymchwil gan Maint Cymru a Global Canopy, mae Partneriaeth Pensiynau Cymru, sy'n buddsoddi ar ran wyth cronfa bensiwn yr awdurdodau lleol ar draws Cymru, yn buddsoddi bron i 10 y cant o'r cyfanswm o £22.5 biliwn mewn cleientiaid neu fuddsoddiadau sydd â risg uchel o fod yn gysylltiedig â datgoedwigo.⁴⁷

Dewiswch fanc, cronfa bensiwn neu gwmni yswiriant moesegol i sicrhau nad yw eich busnes yn ariannu diwydiannau dinistriol, fel cynhyrchu cig eidion, soia a phalmwydd ar lefel ddwys. Gallech hefyd ymgysylltu â'r cwmnïau neu'r cleientiaid rydych yn buddsoddi ynddynt, neu sefydlu polisi mewnol cadarn sy'n ymrwymo i ddileu'r risgiau o gyfrannu at ddatgoedwigo o fuddsoddiadau ariannol.

⁴⁷ <https://sizeofwales.org.uk/wp-content/uploads/2024/05/Saving-for-the-future-Size-of-Wales-public-pension-report.pdf>



Ymgysylltu gyda chyflenwyr

Nod yr adran hon yw helpu i lywio eich sgysiau gyda chyflenwyr, boed ar ddechrau perthynas gcontract newydd neu tra bydd mewn grym. Mae'n darparu cyfres o gwestiynau i'ch helpu i ddarganfod:

- Y camau sydd yn cael eu cymryd gan gyflenwyr i sicrhau cyrchu cynaliadwy, yn cynnwys ymrwymadau dim datgoedwigo a throsi tir, a mesurau i ddiogelu a chynnal hawliau dynol.
- P'un ai yw'r cynnyrch sydd yn cael eu cyflenwi i'ch sefydliad yn cael eu cyrchu'n gynaliadwy.

I unrhyw gwmni i lawr y gadwyn, gall dilyn pob cam yn y gadwyn gyflenwi fod yn heriol am lawer o resymau. Er enghraifft, y diffyg tryloywder a'r gallu i olrhain rhai cynnyrch, fel soia a ddefnyddir mewn porthiant anifeiliaid. Fodd bynnag, yn sgil symud i economi carbon isel, bydd llawer o gwmnïau dan bwysau cynyddol i ddangos nad yw'r cynnyrch maen nhw'n eu cyflenwi yn gysylltiedig â datgoedwigo na throsi tir dramor. Bydd ymgysylltu â chyflenwyr yn gynnar yn eu helpu i baratoi ar gyfer y newidiadau hyn ac addasu iddynt.

Bydd rhai cyflenwyr yn weithgynhyrchwyr uniongyrchol y cynnyrch, sydd yn golygu y dylai fod yn haws iddynt ddarparu'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch am y cynnyrch. Bydd cwmnïau eraill yn gyflenwyr anuniongyrchol, ac yn gwerthu cynnyrch sydd yn cael eu gwneud gan weithgynhyrchwyr eraill. Beth bynnag, dyma rywfaint o gamau ymarferol i'w nodi, p'un a oes gan gynnyrch risg isel o ddatgoedwigo neu beidio, gan gynnwys defnyddio cynlluniau ardystio a nodi'r wlad tarddiad.

Cwestiynau i ofyn i gyflenwyr:

1. Ydy'r cyflenwr yn gwneud ymrwymiad cyhoeddus i gyrchu'n gynaliadwy, sy'n cynnwys ymrwymadau dim datgoedwigo a throsi tir?
2. Os nad ydy, oes gan y cyflenwr ymrwymiad â therfyn amser mewn perthynas â stopio cyrchu nwyddau anghynaliadwy sy'n risg i goedwigoedd, e.e. dyddiad terfyn ar gyfer defnyddio olew palmwydd anghynaliadwy?
3. Oes gan y cyflenwr bolisiau sy'n cefnogi diogelu bioamrywiaeth ac ecosystemau?
4. Oes gan y cyflenwr bolisiau ac ymrwymadau yn eu lle i drin ac atal materion cymdeithasol sy'n ymgodi o'i gadwyni cyflenwi? E.e. datganiad gwrth-gaethwasiaeth, ymrwymiad cyhoeddus i ddiogelu hawliau gweithwyr, neu bolisi ar Gydsyniad Rhydd, Ymlaen Llaw a Gwybodus (FPIC) mewn perthynas â chnydau sydd yn cael eu tyfu ar diroedd Brodorol.
5. Ydy'r cyflenwr yn sicrhau diwydrwydd dyladwy wrth gyrchu cynnyrch a chynhwysion, sy'n cynnwys asesu'r risg o ddatgoedwigo a throsi tir yn ei gadwyni cyflenwi?
6. Ydy'r cyflenwr yn gyfarwydd â'r wlad neu'r rhanbarth tarddiad ar gyfer y nwyddau sy'n risg i goedwigoedd sydd yn cael eu defnyddio yn eu cynnyrch? (Darllenwch ein hadroddiad Cymru a Chyfrifoldeb Byd-eang i weld y rhestr o wledydd sydd wedi'u categorïddio fel rhai â risg uchel ac uchel iawn o gyfrannu at ddatgoedwigo a/ neu broblemau cymdeithasol).
7. Ydy'r cyflenwr yn gallu olrhain ei gadwyni cyflenwi sy'n risg i goedwigoedd yn llawn? E.e. mapiau cadwyni cyflenwi a ddefnyddir mewn gweithrediadau, trwyddedau consesiwn, neu ddogfennaeth sy'n dangos a yw Cydsyniad Rhydd, Ymlaen Llaw a Gwybodus wedi'i sicrhau gan gymunedau lleol neu frodorol.

Rydym wedi datblygu set o gwestiynau mwy manwl ynghylch olew palmwydd a phorthiant anifeiliaid, a allai fod yn ddefnyddiol i arwain ymgysylltu â chyflenwyr. Rydym hefyd wedi datblygu Pecyn Cymorth Busnes Dim Datgoedwigo, y gall cyrff cyhoeddus ei rannu gyda chyflenwyr i gael rhagor o wybodaeth am nwyddau sy'n peri risg i goedwigoedd, a pha gamau y dylent eu cymryd i leihau'r risg.

Cydweithio

Gweithiwch gyda'ch cyflenwyr a'ch rhanddeiliaid a'u cefnogi i gymryd camau sydd ddim yn achosi datgoedwigo. Gall hyn amrywio yn dibynnu ar y math o gyflenwyr rydych yn eu defnyddio a'r amgylchiadau penodol, ond gall rhai enghreifftiau o ymdrechion cydweithredol i leihau'r risg o ddatgoedwigo gynnwys y canlynol:

- Hyrwyddo ffermwyr lleol sy'n mabwysiadu arferion ffermio adfywiol ac organig sy'n lleihau effaith amgylcheddol ac sy'n cefnogi cadwyni cyflenwi lleol.
- Cefnogi tyfwyr a chyflenwyr lleol llai i gystadlu am gcontractau'r sector cyhoeddus. Er enghraifft, fel rhan o Fframwaith Bwyd Grŵp Bwyd Cydweithredol y Sector Cyhoeddus yng Nghymru, rhannwyd contractau yn rhannau llai i annog cyfranogiad gan gyflenwyr llai sy'n byw yng Nghymru.
- Gweithio gyda'ch Partneriaeth Bwyd Lleol i ddarparu cymorth i gynhyrchwyr lleol a sefydliadau cymunedol sy'n hyrwyddo systemau bwyd lleol, gwydn.
- Cefnogi cyflenwyr ar fframweithiau neu drwy'r broses gaffael i ddeall yn well sut i fodloni meini prawf dim datgoedwigo, drwy ddulliau fel cynnwys llai o gig, defnyddio ardystiadau moesegol a chyrchu'n gyfrifol.
- Gweithio gydag ysgolion lleol i gefnogi dysgu am systemau bwyd, a gwahodd disgyblion i gymryd rhan yn y gwaith o ddylunio prydau ysgol, gan eu galluogi i gael dweud eu dweud ynghylch tarddiad eu bwyd.



Ysbrydoli

Bydd rhywfaint o hyn yn digwydd yn naturiol drwy sgysiau gyda'ch cyflenwyr, h.y. pan fyddwch yn gwneud newidiadau o ganlyniad i'ch archwiliad. Fodd bynnag, bydd llawer o gyfleoedd eraill i godi ymwybyddiaeth ac i ysbrydoli eraill ar draws eich gwaith. Er enghraifft:

- Ar draws eich gwasanaethau, efallai y bydd cyfleoedd i ddylanwadu ar y partneriaid a'r rhanddeiliaid rydych chi'n gweithio gyda nhw.
- O fewn eich cymuned, e.e. gallech rannu'r daith rydych chi arni fel corff cyhoeddus a sut rydych chi'n gweithio gyda phartneriaid cymunedol i sicrhau newid.
- Ar draws eich tîm staff, e.e. drwy drefnu sesiwn Cinio a Dysgu Dim Datgoedwigo (gall Maint Cymru ddarparu hyn).
- Rhannu eich ymrwymiadau a'ch gweithredoedd yn gyhoeddus i ddangos effaith ac i ysbrydoli eraill.
- Hyrwyddo digwyddiadau Dim Datgoedwigo yn eich cymuned, er enghraifft, drwy gynnal digwyddiad **Pythefnos Masnach Deg** i godi ymwybyddiaeth o ardystiadau moesegol ac i annog aelodau'r gymuned i wneud dewisiadau moesegol wrth brynu coffi a chacao.





Ysbrydoliaeth / cymhelliant

Straeon datgoedwigo o lygaid y ffynnon

Pobl y Guarani, Brasil

Mae'r Guarani yn un o bobloedd Brodorol mwyaf poblog Brasil, ac mae eu tiriogaeth hynafol yng Nghoedwig yr Iwerydd, Brasil.⁴⁸ Mae Coedwig yr Iwerydd yn cynnwys tua 5 y cant o fioamrywiaeth y byd o ran rhywogaethau planhigion ac anifeiliaid, ac fe'i hystyrir yn ardal flaenoriaeth ar gyfer cadwraeth amgylcheddol - mae'n un o'r pump o fannau poeth ar draws y byd.⁴⁹ Mae afonydd a ffynhonnau'r goedwig yn gyfrifol am y rhan fwyaf o gyflenwad dŵr croyw Brasil, ac yn gwasanaethu 130 miliwn o bobl.⁵⁰ Fodd bynnag, mae Coedwig yr Iwerydd a'r bobl Brodorol sy'n byw yn y bïom hwn dan fygythiad oherwydd bod y fasnach amaeth yn tyfu yn y rhanbarth, yn enwedig soia ungnwd. Yn hanesyddol, roedd y goedwig yn cwmpasu 1.2 miliwn km² - tua chwarter maint yr Amazon. Heddiw, ar ôl canrifoedd o ddatgoedwigo, newid mewn defnydd tir ac ehangu trefol, mae llai na 10 y cant o'r cynefin gwerthfawr hwn ar ôl mewn ardaloedd gwarchodedig a lleiniau tameidiog o goedwig,⁵¹ sydd yn aml wedi'u hamgylchynu gan blanhigfeydd ungnwd.

Yn niwylliant y Guarani, mae bywydau pobl wedi ymblethu a'u cysylltu â bywydau'r holl bobl eraill yn y goedwig. Dydyn nhw ddim yn ystyried eu hunain ar wahân i natur. Maen nhw'n bwydo, diogelu ac yn parchu'r ddaear, planhigion, anifeiliaid a phryfed, ac yn ystyried bod eu bywydau yn gyfartal - dydyn nhw byth yn ceisio cael pŵer dros natur, neu ei hecsbloetio.

**"I gynnal, ein nhandereko –
ein ffordd o fyw – mae'n rhaid
cadw'r coedwigoedd a'u holl
fodau yn fyw hefyd"**

Arweinydd Brodorol, o'r Commissao
Guarani Yvyrupa

Fodd bynnag, mae grymoedd economaidd nerthol yn dinistrio ac yn ecsbloetio'r goedwig ar gyfer y fasnach amaeth, i gynhyrchu mwynau, ac ar gyfer prosiectau seilwaith ar raddfa fawr, fel rheilffyrdd a gweithfeydd pŵer-trydan dŵr.

48 <https://super.abril.com.br/mundo-estranho/quais-sao-os-povos-indigenas-mais-numerosos-do-brasil/>

49 <https://www.sciencedirect.com/science/article/pii/S2530064418301317>

50 <https://phys.org/news/2020-03-destruction-atlantic-forest-fragment-local.html>

51 https://www.worldwildlife.org/documents/548/7nxri5veo8_WWF_Forest_Pathways_Report_2023_Web.pdf



Yn ystod pum mis cyntaf 2025, daeth Brasil y prif allforiwr soia, gyda 51.53 miliwn tonnall, cynnydd o 5 y cant o'r un cyfnod yn 2024.⁵² Mae llawer o'r "cynhyrchiant" hwn yn deillio o dir sydd wedi cael ei gymryd yn dreisgar oddi wrth bobl Frodorol fel yr Avá Guarani, y mae eu tiroedd hynafol wedi cael eu clirio ar gyfer ungnwd soia, ransio gwartheg, a phlanhigfeydd ewcalyptws. Yng Ngorllewin Paraná, mae dros 60 y cant o Dir Brodorol yr Avá-Guarani yn cael ei oruchafu gan y fasnach amaeth, sy'n gadael dim ond un y cant ar gyfer ffermio traddodiadol.

Mae tyfu soia ar raddfa ddiwydiannol yn cael gwared â chynefinoedd naturiol ar gyfer anifeiliaid gwyllt sy'n rheoli plâu, ac yn gorfodi defnydd trwm o blaladdwyr cemegol. Mae'r gymuned Avá Guarani yn dweud bod pentrefi ger planhigfeydd soia yn cael eu chwistrellu'n rheolaidd, weithiau'n fwriadol, gyda phlaladdwyr yn cyrraedd eu cartrefi, caeau, a'u cymunedau. O ganlyniad, mae cysylltiad parhaus â lluwch plaladdwyr, sy'n achosi problemau iechyd fel poenau yn y stumog, cur pen a chwydu. Mae defnyddio plaladdwyr yn halogi ffynonellau dŵr lleol hefyd, ac yn effeithio ar ansawdd dŵr yfed a bywyd dyfrol.

Mae'r soia sydd yn cael ei dyfu ym Mrasil, yn aml ar dir wedi'i ddatgoedwigo, nid yn unig yn ysgogi colli bioamrywiaeth a dinistrio ecosystemau dramor, ond mae hefyd, yn cael

effaith uniongyrchol ar afonydd a thir Cymru. Mae llawer o'r soia hwn yn diweddu fyny mewn porthiant anifeiliaid ar gyfer systemau da byw yng Nghymru, yn enwedig ar ffermydd dofednod a llaeth. Mae porthiant anifeiliaid sydd yn cael ei fewnforio, yn enwedig soia, yn uchel mewn ffosfforws. Ar ôl cael ei fwyta gan dda byw, mae'r ffosfforws hwn yn cael ei ysgarthu mewn gwrtaith maeth-gyfoethog. Pan mae'r gwrtaith hwn yn cael ei wasgaru ar dir ffermio, mae'r maetholion gormodol hyn yn llifo i afonydd a dŵr daear, ac yn cysylltu datgoedwigo dramor â llygru dŵr croyw gartref.⁵³ Mae'r cysylltiad byd-eang/lleol hwn yn tynnu sylw at sut mae patrymau bwyta yng Nghymru yn cyfrannu at ddiraddio'r amgylchedd ac at gam-drin hawliau dynol dramor, ac yn llygru afonydd gartref, ac yn dangos bod angen ffynonellau bwyd ac arferion amaethyddiaeth mwy cynaliadwy.

Mae'r Guarani yn ymladd i ddiogelu eu tiroedd ac, o ganlyniad, maen nhw'n dioddef gwahaniaethu, camdriniaeth, bygythiadau a brawychu bob dydd.⁵⁴ Mae llawer wedi cael eu llofruddio, ac os yw eu pentrefi'n agos at blanhigfeydd y fasnach amaeth, maen nhw'n cael eu chwistrellu'n rheolaidd â phlaleiddiaid sy'n effeithio ar iechyd eu plant, planhigion ac anifeiliaid. Mae tirnodau ysbrydol wedi cael eu boddi a phentrefi wedi cael eu dinistrio i dyfu cnydau fel ffa soia, sy'n cael eu hallforio a'u defnyddio fel bwydydd anifeiliaid.

52 <https://www.theguardian.com/global-development/2025/sep/29/agriculture-deforestation-farming-soya-cultivation-eating-brazil-amazon>

53 <https://www.soilassociation.org/media/27139/stop-killing-our-rivers.pdf>


54 <https://www.survivalinternational.org/news/11886>



“Ym Mrasil, mae'r bobl Frodorol, pobl wreiddiol y tir hwn, wedi dioddef llawer o drais erioed. Collasant eu tiroedd a chawsant eu llofruddio oherwydd gwladychu. A heddiw, mae'r ymosodiadau ar ein hawliau'n parhau. Mae ein tiroedd a'n coedwigoedd yn parhau i gael eu dinistrio. Ac fe gollom ein bywydau hyd yn oed oherwydd buddiannau economaidd grymus iawn”

Arweinydd Brodorol, o'r Commissao Guarani Yvyrua

I ddiogelu eu diwylliant, eu bodolaeth, ac fel y cyfryw, eu coedwigoedd, mae angen cymorth byd-eang gan lywodraethau, cyrff anllywodraethol, busnesau a'r gymdeithas sifil ar bobl y Guarani. Mae pobl y Guarani yn galw ar bobl y byd cyfan i gefnogi eu brwydr i ddiogelu coedwigoedd ac i adfer tiroedd hynafol - i wrando ar leisiau'r rhai hynny sydd â gwybodaeth unigryw am sut i ofalu am goedwigoedd. O ran llywodraethau, busnesau a sefydliadau, mae hyn yn golygu cefnogi gosod ffiniau o gwmpas tiroedd Brodorol a pharchu fframweithiau hawliau dynol a gydnabyddir yn rhyngwladol, fel Datganiad o Hawliau Pobloedd Frodorol y Cenhedloedd Unedig. Mae'n golygu eu bod yn sicrhau nad yw'r cynnyrch a'r nwyddau maen nhw'n eu prynu yn tresmasu ar yr hawliau hyn. Er enghraifft, mynnu bod cyflenwyr yn gallu dangos olrhain eu cadwyni cyflenwi sy'n risg i goedwigoedd yn llawn, neu ddogfennaeth ar Gydsyniad Rhydd, Ymlaen Llaw a Gwybodus ar gyfer nwyddau a dyfir ar diroedd Brodorol. Mae'n golygu gwneud cymaint ag y gallant yn eu gweithrediadau a'u harferion caffael i leihau datgoedwigo trofannol a throsi tir i ddiogelu cymunedau Brodorol a mynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur. Mae'r rhain yn ffyrdd ystyrlon o gryfhau'r warchodaeth dros y man lle rydym i gyd yn byw - y coedwigoedd, yr afonydd. Mae'r frwydr hon nid yn unig dros bobl y Guarani, ond dros bawb. Mae'n frwydr dros y bywyd da, brwydr dros fywyd y Blaned.



Tyfu coffi ar Fynydd Elgon, Uganda

Mae'r astudiaeth achos hon yn egluro sut mae cydweithfa Masnach Deg yn Uganda yn gallu sicrhau incwm ar gyfer ei haelodau a'u helpu i ymaddasu i'r newid hinsawdd, diogelu bioamrywiaeth, a diogelu'r cyflenwad bwyd lleol a bydeang ymhellach.

Mae gan Fenter Tyfu Coed Mynydd Elgon (MEACCE) aelodaeth gyfunol o 3,664 o ffermwyr. Mae gan fynydd hardd Mt Elgon hinsawdd drofannol, ucheldiroedd, a phriddoedd folcanig. Mae llawer o wahanol blanhigion yn ffynnu yno ac mae'r amodau'n ddelfrydol ar gyfer tyfu coffi.

Fodd bynnag, mae'r dirwedd fras a ffrwythlon hon dan fygythiad. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r ardal wedi dioddef oherwydd cynhesu a newidiadau dramatig i batrymau ei thywydd. Mae llifogydd a mwldlithriadau'n digwydd yn fwyfwy aml, gan olchi'r pridd gwerthfawr i lawr y mynydd. Mae planhigion coffi yn sensitif iawn i'r newid lleiaf mewn amodau.



Mae MEACCE hefyd yn rhan bwysig o Raglen Plannu Coed Mbale, sydd yn cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru a Maint Cymru. Ar ôl cyrraedd ei tharged ar gyfer 2025 o ddosbarthu 25 miliwn o goed, mae'r rhaglen bellach yn anelu at gefnogi cymunedau i blannu 50 miliwn o goed erbyn 2030. Mae'r ffermwyr sy'n aelodau'n derbyn coed am ddim i'w plannu ar eu tyddynnod. Mae plannu coed ymhlith y planhigion coffi i greu cysgod wedi gwella ansawdd a phwysau'r cnwd o 150 y cant ar gyfartaledd.

Wrth iddynt dyfu coffi o safon uchel, mae'r ffermwyr yn gallu cymryd camau i ddiogelu eu hamgylchedd. Mae tyfu coed ac amaeth-godwigaeth (tyfu cnydau gyda choed) wedi helpu i amrywiaethu incwm, gwarchod natur, cynyddu'r gorchudd coed a sefydlogi priddoedd i leihau'r bygythiad o dirlithriadau. Mae'r coed ffrwythau'n darparu bwyd ac incwm ychwanegol i ffermwyr a'u teuluoedd hefyd.

Mae'r ffermwyr wedi bod yn gwerthu eu coffi organig ardystiedig a Masnach Deg yn lleol ers blynnyddoedd. Fodd bynnag, mae llwyddiant diweddar yn golygu bod y coffi hefyd yn cael ei gludo i Gymru ac ar gael i'w brynu drwy [wefan](#) Jenipher's Coffi. Mae cael mynediad i farchnadoedd lleol a rhyngwladol, am brisiau Masnach Deg, yn darparu mwy o gadernid ariannol fyth i'r ffermwyr.



"Mae newid hinsawdd yn effeithio arnom bob dydd, ac mae'n gwneud ein gwaith yn llawer caletach. Dyna pam rydym yn rhan o'r cynllun i blannu 25 miliwn o goed, am ein bod ni eisiau gwneud y rhanbarth yn fwy gwydn yn erbyn llifogydd a mwldithriadau a helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd i bob un ohonom. Ers i ni ddod yn rhan o'r cynllun, rydym hefyd wedi gweld ansawdd ein coffi yn gwella, gan fod y coed yn darparu cysgod ac yn diogelu'r cnydau rhag y patrymau tywydd newidiol".

Jenipher, Wetaka Sambazi.
Dirprwy Gadeirydd MEACCE

An aerial photograph of a vast, dense tropical rainforest. A river winds through the forest, its water a murky brownish-green. The forest is a deep, vibrant green, with many tall trees visible. In the background, the forest gives way to a lighter green area, possibly a wetland or a different type of vegetation. The sky is not visible, as the forest canopy covers the entire frame.

Astudiaethau achos o arferion gorau

Astudiaethau achos o arferion gorau

Y Model Copenhagen

Yn 2001, gosododd Dinas Copenhagen dargedau bwyd uchelgeisiol ar gyfer ei cheginau trefol. Heddiw, o blith y 70,000 o brydau a weinir mewn tua 1,000 o sefydliadau a chyfleusterau, yn cynnwys ysgolion, cartrefi gofal a ffreuturau staff, mae bron 90 y cant wedi'u gwneud o gynhwysion organig yn defnyddio'r un gyllideb. Cyflawnwyd hyn drwy weithio'n agos gyda chynhyrchwyr bwyd, buddsoddi mewn hyfforddiant staff ac adnewyddu ceginau i wella storio cynnyrch a hefyd, drwy ddarparu cyngor ar leihau gwastraff bwyd, fel cynllunio bwydlenni, cynhyrchu bwyd, cyflwyniad a dulliau gweini. Mae rhai sefydliadau hyd yn oed wedi gwneud trefniadau gyda siopau lleol, fel poptai, i gymryd cynnyrch gormodol, gan leihau'r gwastraff bwyd ymhellach.

Mae'r pontio i organig wedi dod ag amryfal fuddion i'r dinasyddion a'r amgylchedd, yn cynnwys cynyddu'r mynediad at brydau ffres, maethlon, sydd o fudd arbennig i boblogaethau ifanc ac oedrannus, ac mae wedi gostwng y pwysau ar fioamrywiaeth trwy ddulliau ffermio cyfeillgar i natur.

Mae strategaeth fwyd presennol Dinas Copenhagen yn mynd ymhellach fyth drwy gyfeirio lens Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig, a chysylltu bwyd a defnydd y cyhoedd ar draws amrywiol nodau. Mae'r dulliau gweithredu'n cynnwys natur dymhorol ac amrywiaeth, lleihau'r defnydd o gig er budd ffynonellau protein amgen, soia ac olew palmwydd wedi'u cyrchu'n gynaliadwy, ardystiadau moesegol, deunydd pacio a cherbydau gwyrddach, a pholisi dim hedfan.

Mae rôl caffael yn allweddol i'r strategaeth hon gan fod lens y Nodau Datblygu Cynaliadwy yn cael ei chyfeirio at y broses dendro hefyd, gan ffafrio cyflenwyr sy'n cwrdd â meini prawf penodol, fel Masnach Deg. Mae swyddogion

caffael yn gweithio gyda chyflenwyr i benderfynu pa nodau maen nhw'n eu bodloni ar hyn o bryd a'r cyfleoedd i gyrraedd mwy o dargedau ar draws y 17 nod. Yn ogystal, mae ymgysylltu dilynol yn digwydd ar hyd cyfnod y contract i alluogi timau caffael i adrodd nôl ar eu cynnydd yn erbyn y nodau.

Mae ymagweddau cynhwysol at fwyd, fel paratoi ar y safle, ymglymu wrth y broses a bwyta cymunedol yn anelu at wella lefelau llythrennedd bwyd, ynghyd â chefnogi cydlynid cymunedol a dealltwriaeth ddyfnach o natur a bioamrywiaeth.⁵⁵



⁵⁵ <https://maaltider.kk.dk/sites/default/files/2022-06/The%20City%20of%20Copenhagen%20Food%20Strategy%202019.pdf>

Polisi Caffael Cyhoeddus 'Dim Datgoedwigo' Ffrainc^{56,57}

Yn 2018, mabwysiadodd Ffrainc Strategaeth Genedlaethol yn erbyn Datgoedwigo a Fewnforir, gyda'r nod o roi terfyn ar fewnforio cynnyrch sy'n cyfrannu at ddatgoedwigo a newid anuniongyrchol mewn defnydd tir erbyn 2030. Mae'r nwyddau sy'n risg i goedwigoedd a nodir yn y strategaeth yn cynnwys cig eidion (a'i sgil-gynnyrch, e.e. lledr), soia, olew palmwydd, coffi, cacao a phren (a'i sgil-gynnyrch).

Cydweithiodd pum gweinidogaeth Llywodraeth Ffrainc i ddatblygu'r strategaeth, sy'n anelu at leihau effaith gymdeithasol ac amgylcheddol y wlad y tu hwnt i'w thiriogaeth genedlaethol a chyfrannu at Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig. Mae'r strategaeth hefyd yn ceisio dylanwadu ar ymddygiadau ac arferion rhanddeiliaid y llywodraeth, gan gynnwys cynhyrchwyr, busnesau, buddsoddwyr a defnyddwyr, mewn perthynas â nwyddau sy'n risg i goedwigoedd, fel cynhwysion crai a chynhyrchion wedi'u pecynnu.

56 <https://www.esdn.eu/newsflash/detail/frances-eco-responsible-public-services>

57 <https://www.gouvernement.fr/en/ending-deforestation-caused-by-importing-unsustainable-products>



Fel rhan o'r strategaeth, mabwysiadodd Ffrainc bolisi caffael cyhoeddus "dim datgoedwigo" ac fe gynhyrchodd ganllaw dim datgoedwigo ar gyfer caffael yn y sector cyhoeddus, sy'n cynnwys y meini prawf canlynol:

- Rhaid i'r wladwriaeth a chyrff cyhoeddus brynu o leiaf 50 y cant o gynnyrch cynaliadwy, o ansawdd fel rhan o'u gwasanaethau arlwygo (gydag o leiaf 20 y cant o'r rhain yn organig).
- Treialu o leiaf un pryd llysieuol yr wythnos ym mhob ysgol am gyfnod o 2 flynedd.
- Defnyddio coffi a chacao sydd wedi'u hardystio gan Fasnach Deg yn unig, ac olew palmwydd sydd wedi'i ardystio'n ffisegol gan yr RSPO.⁵⁸
- Rhaid i ddarparwyr arlwygo sy'n cynhyrchu mwy na 200 o brydau'r dydd ddatblygu cynllun i leihau protein anifeiliaid mewn prydau o blaid mwy o brotein planhigion, fel corbys a ffa.

Yn fwyfwy, ers mis Ionawr 2021, mae meini prawf sy'n ystyried y risg o ddatgoedwigo wedi cael eu cynnwys yn y galwadau am dendrau sydd yn cael eu cyhoeddi gan y Wladwriaeth, ac mae cymalau safonol wedi cael eu llunio i gefnogi prynwyr cyhoeddus. Mae'n rhaid i gaffael cyhoeddus ystyried y risg o ddatgoedwigo wrth brynu nwyddau sy'n risg i goedwigoedd, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.

Er mwyn helpu i hwyluso'r newid hwn tuag at gyrchu bwyd cyhoeddus sy'n iachach, o ansawdd gwell ac yn fwy cynaliadwy, sefydlodd y Weinyddiaeth Amaethyddiaeth a Bwyd wasanaeth digidol o'r enw *Ma Cantine*. Nod y gwasanaeth hwn ydy cefnogi newid mewn ymddygiad drwy'r ffyrdd canlynol:

- Cefnogi rheolwyr arlwygo i olrhain y pethau maen nhw'n eu prynu, fel y gallant, er enghraifft, fonitro faint o gynnyrch organig, cynaliadwy ac o ansawdd maen nhw'n ei archebu, a lleihau gwastraff
- Darparu data ar adborth i helpu i fonitro cynnydd a chefnogi polisi cyhoeddus
- Gwella tryloywder a chyfathrebu gyda defnyddwyr y gwasanaeth

Hyd yn hyn, mae bron i 65 y cant o'r cyfleusterau arlwygo bwyd wedi cofrestru gyda'r gwasanaeth, gyda data'n awgrymu cyfran gyfartalog o 12.2 y cant o gynnyrch organig ar gyfer 2025.⁵⁹

Ym mis Chwefror 2026, cyhoeddodd Llywodraeth Ffrainc ei Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Bwyd, Maeth a'r Hinsawdd (SNANC).⁶⁰ Mae'r strategaeth newydd hon yn cefnogi gwaith y polisi caffael cyhoeddus dim datgoedwigo, drwy osod amcanion cenedlaethol i gynyddu'r defnydd o broteinau planhigion a chyfyngu ar

y defnydd o gig coch a chig wedi'i brosesu— yn enwedig mewnforion. Mae'n rhoi pwyslais ar y risg o ddatgoedwigo sy'n gysylltiedig â chynhyrchion anifeiliaid, yn enwedig cynhyrchu soia ar gyfer porthiant anifeiliaid.⁶¹



58 Gellir olrhain olew palmwydd sydd wedi'i ardystio'n ffisegol ar hyd y gadwyn gyflenwi gyfan. Mewn cyferbyniad, mae'r ardystiad "RSPO Cymysg" yn cyfuno olew palmwydd cynaliadwy ardystiedig (CSPO) gydag olew palmwydd confensiynol (heb ei ardystio), neu gredydau RSPO, sy'n caniatáu i gwmnïau brynu credydau gan gynhyrchydd olew palmwydd cynaliadwy, ond parhau i ddefnyddio olew palmwydd anghynaliadwy yn eu cynnyrch eu hunain.

59 <https://beta.gouv.fr/startups/ma-cantine-egalim.html>

60 <https://agriculture.gouv.fr/SNANC-20252030>

61 <https://www.fern.org/publications-insight/article/frances-new-food-strategy-targets-ready-made-meals-and-increased-plant-based-consumption/>

Grŵp Bwyd Cydweithredol Sector Cyhoeddus Cymru⁶²

Gweithiodd Maint Cymru mewn cydweithrediad â thîm caffael Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili i ddatblygu Pecyn Cymorth Busnes Dim Datgoedwigo, er mwyn helpu cyrff cyhoeddus yng Nghymru i wneud penderfyniadau caffael cyfrifol sy'n osgoi cyfrannu at ddatgoedwigo, colli cynefinoedd ac at effeithiau cymdeithasol dramor.

Mae'r gwaith hwn yn adeiladu ar rôl Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili fel arweinydd Grŵp Bwyd Cydweithredol Sector Cyhoeddus Cymru, a ddisodlodd y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn 2021. Mae Grŵp Bwyd Cydweithredol Sector Cyhoeddus Cymru yn gweithio ar y cyd ar draws sector cyhoeddus Cymru i greu fframweithiau bwyd hygyrch sy'n ateb anghenion amrywiol sefydliadau'r sector cyhoeddus.

Fel rhan o gam i wella caffael bwyd yn y sector cyhoeddus, cymerodd Grŵp Bwyd Cydweithredol Sector Cyhoeddus Cymru y fframweithiau a'r contractau caffael bwyd unigol presennol, a cheisio dod â nhw at ei gilydd o dan un fframwaith mwy ar gyfer 19 o gyrff y Sector Cyhoeddus yng Nghymru. Roedd hyn yn cynnwys gwasanaethau bwyd ac arlwygo ar gyfer ysgolion, cartrefi gofal, safleoedd dinesig,

⁶² https://sizeofwales.org.uk/wp-content/uploads/2025/06/Size-of-Wales-CCBC-Case-Study_Long-Version-Final.pdf



dwyr gymdeithas dai, Cyfoeth Naturiol Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Roedd cydweddu â Datganiad Polisi Caffael Cymru ac elwa ar y cyfle am gynaliadwydd yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) wedi'i ymgorffori yn y fframwaith. Roedd cyflawni canlyniadau a oedd o fudd ac yn cefnogi gwerth cymdeithasol, ynghyd â nodau llesiant Cymru a oedd hefyd yn cefnogi economi sylfaenol Cymru, yn gyfle gwych i ymgorffori meini prawf dim datgoedwigo gorfodol yn y fframwaith caffael o'r cychwyn cyntaf, ac yn dilyn ymlaen o'r gwaith oedd wedi cael ei wneud i greu'r Pecyn Cymorth Caffael Dim Datgoedwigo.

Mae'r meini prawf gorfodol yn cynnwys darparu llai o gig a llaeth, ond o ansawdd gwell e.e., wedi'u hardystio'n organig, wedi'u pesgi ar borfa, gostyngiad mewn bwydydd wedi'u prosesu'n helaeth i leihau'r defnydd o olew palmwydd ac effeithiau negyddol ar iechyd, cyrchu olew palmwydd wedi'i ardystio'n ffisegol gan yr RSPO (lle mae gostyngiad yn anochel), darparu pysgod a bwyd môr wedi'u hardystio gan yr MSC/ASC, a mwy o amrywiaeth o fwydydd tymhorol sy'n seiliedig ar blanhigion a chodlysiau sy'n llawn protein, a choffi a chacao Masnach Deg.

Roedd cynnwys y mesurau hyn fel gofynion penodol contractau yn golygu, pe byddai contractwyr yn llwyddo i ennill lle ar y fframwaith, y byddai'n rhaid iddynt sicrhau y byddai eu busnes yn ymrwymo i'r meini prawf gorfodol hyn, ac yn dangos eu gallu i gydymffurfio â nhw.

Mae fframwaith Grŵp Bwyd Cydweithredol Sector Cyhoeddus Cymru yn cynnwys 19 o gyrff sector cyhoeddus, pob un â pharthau daearyddol dynodedig. Sefydlwyd dros 150 o gyfrannau o nwyddau i annog cyflenwyr llai o Gymru i gymryd rhan. Ymgysylltodd tîm Grŵp Bwyd Cydweithredol Sector Cyhoeddus Cymru gyda 403 o gyflenwyr yng Nghymru, gyda dros 50 yn mynychu sesiynau gwybodaeth. Mynegodd 77 o gyflenwyr ddiddordeb, a chyflwynodd 26 gynigion. O'r rhain, dyfarnwyd lleoedd i 19 o gyflenwyr o Gymru ar y fframwaith, ynghyd â thri o Loegr. Amcangyfrifir bod y fframwaith pedair blynedd hwn yn werth tua £228 miliwn, ac mae'n hyrwyddo ymgysylltu lleol cynaliadwy ar draws Cymru mewn ffordd sydd heb gael ei wneud o'r blaen.



Cyngor Hyrwyddo Dim Datgoedwigo Cyntaf Cymru⁶³

Ym mis Ionawr 2025, llofnododd Cyngor Sir Fynwy Siarter Dim Datgoedwigo, sef ymrwymiad ar draws y cyngor i ddod o hyd i gynnyrch amgen, yn lle cynnyrch sy'n risg i ddatgoedwigo. Mae hyn yn cynnwys hyrwyddo bwyd lleol, prynu cynnyrch masnach deg ac organig, a defnyddio ei blatfform i eirioli dros leihau ein hól troed datgoedwigo ar draws y byd ymhlith partneriaid, cymunedau a chyflenwyr. Wrth wneud hyn, daethant yn Gyngor Hyrwyddwr Dim Datgoedwigo cyntaf Cymru – ac o bosibl, y byd.

Mae'r ymrwymiad hwn yn cydnabod effaith arferion caffael y cyngor, fel prydau ysgol, ar ddatgoedwigo trofannol, sy'n cyfrannu at newid hinsawdd ac sy'n bygwth bywydau Pobl Frodorol. Mae hefyd yn cyd-fynd ag amcanion Cyngor Sir Fynwy i fynd i'r afael â newid hinsawdd ac anghydraddoldeb, drwy fanteisio ar bŵer gwariant cyhoeddus i sicrhau newid.

Cafodd y cam hwn ei arwain gan ddisgyblion ysgolion Sir Fynwy, a roddodd gyflwyniad i'r cyngor ym mis Rhagfyr 2024 ar y gwaith y gwnaethant gyda Maint Cymru i archwilio a mynd i'r afael â datgoedwigo wedi'i gynnwys yng nghadwyni cyflenwi arlwy ysgolion.

⁶³ <https://sizeofwales.org.uk/wales-map/monmouthshire-county-council/>





Ar ôl cyfres o weithdai manwl yn archwilio'r prif nwyddau sy'n achosi datgoedwigo trofannol, archwiliodd y disgyblion fwydlen eu hysgol am gynnyrch sydd yn risg i goedwigoedd. Fe wnaethant lwyddo i ddod o hyd i brydau a oedd yn debygol o gynnwys cynnyrch oedd yn gysylltiedig â datgoedwigo, a arweiniodd wedyn, at archwilio pa mor anodd fyddai dileu'r risg honno yn ymarferol.

Dechreuodd y disgyblion drwy edrych ar bryd poblogaidd – cyw iâr korma – ar fwydlen yr ysgol, a darganfod bod y cyw iâr oedd yn cael ei fewnforio yn debygol iawn o fod wedi'i besgi ar soia sy'n gysylltiedig â'r risg o ddatgoedwigo. Fe wnaethant archwilio'r opsiwn o newid i gyw iâr organig, a fyddai wedi sicrhau bod y soia sydd

yn cael ei ddefnyddio mewn porthiant anifeiliaid yn organig hefyd, ac nad oedd wedi cael ei dyfu ar dir oedd wedi'i ddatgoedwigo. Fodd bynnag, drwy eu dadansoddiad, daethant i'r casgliad na fyddai'r goblygiadau o ran cost a'r diffyg cyflenwad cyson yn gwneud yr opsiwn hwn yn ymarferol ar raddfa eang.

Yna, archwiliodd y disgyblion ffynonellau protein amgen, gan gynnwys ffa, pylsau a chodlys, ac fe aethant ymlaen i greu rysâit korma ffacbys fel dewis amgen ymarferol. Pan gafodd y rysâit ei phrofi yn erbyn gofynion arlwyo, fe wnaeth y disgyblion ddarganfod bod y pryd yn costio tua hanner cymaint fesul dogn â'r pryd gwreiddiol gyda chyw iâr, tra'n bodloni safonau bwyd ysgol ac yn perfformio cystal â, neu'n well na, y pryd

gwreiddiol o safbwynt maethol. Yn ogystal, fe wnaeth y pryd gyda ffacbys greu gwerth i ffermydd y DU, cefnogi arferion ffermio organig, a chyfrannu at iechyd pridd gwell.

Fe wnaeth y pryd wedi'i ail-fformiwleiddio ddangos buddion clir: lleihau'r risg o ddatgoedwigo a'r effaith ar yr amgylchedd, tra'n gwella fforddiadwyedd, gwydnwch ac ansawdd maethol. Ar y sail hon, cyflwynodd y disgyblion achos cryf dros gyflwyno'r pryd ar fwydlen yr ysgol, gan ddangos sut y gall cyfraniad pobl ifanc arwain at welliannau ymarferol seiliedig ar dystiolaeth yn narpariaeth bwyd y sector cyhoeddus.

Yn sgil cael ei ysbrydoli gan weithredoedd disgyblion ysgol leol, llofnododd Cyngor Sir Fynwy y Siarter Dim Datgoedwigo a'r ymrwymïadau canlynol:

- Rydym yn ymrwymo i fynd i'r afael â'n hôl troed datgoedwigo dramor a cholli cynefinoedd drwy ein harferion a'n hymddygiadau, er enghraifft, drwy gaffael ar wahanol gamau, fel herio'r pethau rydym yn eu prynu, ystyried yr effeithiau ar lesiant neu drwy reoli contractau'n effeithiol.
- Rydym yn ymrwymo i ddatblygu a gweithredu ein Cynllun Gweithredu Dim Datgoedwigo, ac i archwilio'r cynnyrch a'r gwasanaethau rydym yn eu caffael sy'n risg i goedwigoedd.
- Rydym yn ymrwymo i wneud newidiadau i nwyddau sy'n risg i ddatgoedwigo, o blaid cynhwysion sydd wedi'u cyrchu'n fwy moesegol
- Byddwn yn adolygu ein hymrwymiad Masnach Deg ac yn sicrhau ei fod yn cael ei weithredu yn ein harferion caffael.
- Rydym yn ymrwymo i helpu ein cyngor i ddysgu am bwysigrwydd coedwigoedd trofannol, datgoedwigo sydd yn cael eu hachosi gan y pethau rydym yn eu bwyta a'u prynu, a beth y gallant ei wneud yn ei gylch.
- Rydym yn ymrwymo i weithio gyda'n cymuned, busnesau, cyflenwyr a'n partneriaid, gan gynnwys ysgolion, i godi ymwybyddiaeth a chefnogi gweithredu ar ddatgoedwigo sydd yn cael ei achosi gan y pethau rydym yn eu bwyta a'u prynu, er mwyn helpu i greu cymuned o hyrwyddwyr dim datgoedwigo.



© Maint Cymru / Richard Stanton

Mae'r gwaith hwn yn cyd-fynd â pholisïau a strategaethau cysylltiedig Cyngor Sir Fynwy, gan gynnwys ei ymrwymiad statudol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – yn enwedig y nodau o greu Cymru 'Wyd'n' a 'Chyfrifol ar Lefel Fyd-eang' – yn ogystal â Strategaethau'r Argyfwng Hinsawdd a Natur a Bwyd Lleol y cyngor.

Yn ogystal, mae **Strategaeth Bwyd Lleol** y cyngor yn cynnwys thema graidd, sef cynyddu gwerth cymdeithasol a lleihau effaith amgylcheddol drwy gaffael cyhoeddus, ac yn nodi opsiynau Masnach Deg a Dim Datgoedwigo fel argymhellion.

Parhaodd y disgyblion i ymgysylltu â chadwyni cyflenwi dim datgoedwigo wrth iddynt symud o addysg gynradd i addysg uwchradd. Aeth nifer o'r disgyblion ymlaen i fynychu Ysgol Haberdashers Monmouth, lle gwnaethant rannu eu dysgu a llwyddo i annog yr ysgol i newid ei chyflenwad coffi o gynnyrch â tharddiad anhysbys i goffi Masnach Deg, organig, sydd yn cael ei dyfu drwy systemau amaeth-goedwigaeth gan gydweithfa o ferched yn Uganda.

Mae'r disgyblion yn adeiladu ar y llwyddiant hwn, ac maen nhw bellach yn archwilio ystod eang o gynnyrch sydd yn cael eu caffael gan yr ysgol i weld os ydynt yn risg i goedwigoedd, ac yn gwneud argymhellion ymarferol ar gyfer eu disodli pan mae eitemau yn cael eu nodi fel risg uchel. Fel rhan o'r broses hon, maen nhw'n cysylltu'n weithredol â chyflenwyr i ofyn am wybodaeth ardystio a mwy o dryloywder ynghylch risgiau yn y gadwyn gyflenwi, ac yn dangos hyder cynyddol wrth ymgysylltu'n uniongyrchol â systemau caffael a sefydliadau a chyfranogwyr masnachol.

Fe wnaeth yr un grŵp o ddisgyblion (ynghyd â chyfoedion a oedd wedi sicrhau ymrwymiad gan yr awdurdod lleol yn flaenorol ac sydd bellach yn mynychu Ysgol Gyfun Trefynwy) weithio gyda'i gilydd hefyd i anfon neges ar y cyd at arweinwyr byd-eang yn COP30. Fe wnaethant rannu llwyfan gydag arweinwyr Brodorol, a chyfleu neges o obaith a'r gallu i weithredu: nad yw cymunedau, gan gynnwys pobl ifanc, yn aros i arweinwyr cenedlaethol weithredu ond yn hytrach, yn cymryd camau ystyrlon eu hunain.

Y datblygiad mwyaf diweddar yw bod Siarter Amgylcheddol leuenctid wedi cael ei ddatblygu gan y clwstwr o ysgolion a oedd yn rhan o'r peilot, ynghyd ag ysgolion lleol ychwanegol yn Nhrefynwy. Mae'r Siarter yn nodi set gyffredin o flaenoriaethau amgylcheddol, sy'n cynnwys diwrnod codi ymwybyddiaeth am ddatgoedwigo ar draws y dref, ac yn troi'r hyn sydd wedi cael ei ddysgu o'r prosiect yn gynllun dan arweiniad pobl ifanc, i'w weithredu'n barhaus yn yr ardal leol.



© Maint Cymru / Richard Stanton

Gwasanaeth arlwygo mewn Ysbyty yn Ninas Efrog Newydd gydag 'Opsionau planhigion fel yr opsiwn safonol'.

Yn 2019, dechreuodd NYC Health + Hospitals gynnig prydau planhigion fel rhan o ymrwymiad 'Dim Cig ar ddydd Llun' ym mhob un o'u 11 ysbyty. Maen nhw wedi adeiladu ar hyn, ac wedi datblygu eu bwydlen 'Planhigion fel yr Opsiwn Safonol', lle cynigir pryd planhigion i gleifion bob dydd fel "Argymhelliad y Cogydd". Mae croeso i gleifion wrthod a dewis opsiynau planhigion eraill neu fwydydd sydd ddim yn fwydydd planhigion, ond mae monitro'r rhaglen yn dangos bod 95 y cant o'r cleifion a dderbyniodd y pryd yn fodlon.⁶⁴ Cefnogwyd cleifion gan staff ac fe'u haddysgwyd am fanteision bwyd planhigion, a chynigiwyd cyngor gan ddeietegwyr iddynt os oeddent yn dymuno dysgu mwy, nes iddynt gael eu rhyddhau o'r ysbyty.⁶⁵ Rhannwyd y manteision iechyd sy'n gysylltiedig â bwyta deiet planhigion gyda chleifion, gan gynnwys lleihau'r risg o glefyd cardiofasgwlaidd, diabetes math 2, rhai mathau o ganser a gordewdra, yn ogystal â helpu gyda rheoli pwysau, pwysedd gwaed uchel a hyperlipidemia.⁶⁶



© NYC Health+ Hospitals

Cafodd eitemau ar y fwydlen eu dylunio gan staff a'u blasu gan gleifion, er mwyn sicrhau mai dim ond yr eitemau oedd yn cyrraedd lefel boddhad o 80 y cant neu fwy oedd yn cael eu cyflwyno ar y rota prydau. Cafodd y ryseitiai hyn eu datblygu i weddu i gefndiroedd diwylliannol ac i fod yn gyfarwydd i gleifion, yn seiliedig ar gymunedau amrywiol Dinas Efrog Newydd. Ers

i'r rhaglen gael ei chyflwyno'n llawn ym mis Mawrth 2022, mae NYC Health + Hospitals wedi gweini dros ddwy filiwn o brydau planhigion, gyda lefel boddhad o 98 y cant ymhlith cleifion. Amcangyfrifir bod allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â bwyd wedi cael eu lleihau 36 y cant, gydag arbedion o 59 senten fesul pryd.⁶⁷

64 <https://www.pcrm.org/news/news-releases/more-90-patient-satisfaction-new-york-city-health-hospitals-plant-based-meals>

65 <https://www.nychealthandhospitals.org/pressrelease/nyc-health-hospitals-now-serving-plant-based-meals-as-primary-dinner-option-for-inpatients-at-all-of-its-11-public-hospitals/>

66 https://www.nyc.gov/assets/foodpolicy/downloads/pdf/NYCHospitals_PlantBasedDefaults_2025.pdf

67 https://www.nyc.gov/assets/foodpolicy/downloads/pdf/NYCHospitals_PlantBasedDefaults_2025.pdf

Bwyd Da i Bawb: Taith
Cyngor Bury i gyrchu
bwyd lleol, organig ar
gyfer ysgolion⁶⁸



Mae Cyngor Bury, yn Greater Manchester, wedi bod ar daith pum mlynedd drawsnewidiol i brynu bwyd yn gynaliadwy ar gyfer 54 o ysgolion ar draws y fwrdeistref. Yn 2020, penderfynodd tîm arlwygo Cyngor Bury ailysgrifennu eu bwydlen - ac ynghyd â hynny, y system gyfan o gaffael a oedd yn cael ei defnyddio ganddynt i ddarparu bwyd i ysgolion. Yn ogystal, yn 2021 cyhoeddodd Cyngor Bury 'Strategaeth Fwyd Bury', sy'n tynnu sylw at y newid yn eu ffordd o ganolbwyntio ar bwysau iach, i edrych ar y system fwyd cyfan. Y nod oedd sicrhau bod bwyd iach, maethlon a chynaliadwy ar gael i bawb, drwy ddatblygu economi fwyd lleol 'gwydn ac amrywiol'.⁶⁹

68 <https://www.foodforlife.org.uk/media/psrn2sty/bury-impact-report.pdf>

69 <https://councildecisions.bury.gov.uk/documents/s25025/Bury%20Food%20Strategy.pdf>





Newidiodd gwasanaeth arlwyo Cyngor Bury o ddefnyddio prydu wedi'u paratoi ymlaen llaw i geginau cynhyrchu ar y safle mewn ysgolion, lle cafodd staff arlwyo eu hyfforddi i ddefnyddio cynhwysion cyfan ac amrwd i greu prydu maethlon a chytbwys. O ganlyniad, mae hyn wedi arwain at leiaf 75 y cant o'r holl fwyd ysgol yn Bury yn cael ei baratoi'n ffres ar y safle erbyn hyn. Fe wnaethant hefyd weithio mewn partneriaeth â'r Soil Association i gael dealltwriaeth well o beth yw bwyd "da", sut i gael gwared â bwydydd wedi'u prosesu'n helaeth o'u bwydlenni, a chyrchu cynhwysion cyflawn mor lleol â phosibl-tra'n aros o fewn y gyllideb dynn a gallu cynnig ystod o opsiynau prydu ar gyfer gwahanol anghenion: llysieuol, fegan, dim llaeth, dim glwten, halal, a chyfuniadau ohonynt.

Roedd rhan o'r broses o ailgynllunio eu system caffael yn cynnwys penderfyniad i symud i ffwrdd o'u hen system gaffael, a oedd yn ffafrio cyfanwerthwyr cenedlaethol mawr, tuag at fodel caffael wedi'i deilwra, a oedd yn blaenoriaethu cyflenwyr llai, lleol. Maen nhw'n gweithio gyda chydweithfeydd fel Organic North, sy'n darparu llwyfan i gynhyrchwyr bach lleol i gyfuno eu cynnyrch a chyflenwi ar raddfa i brynwyr mwy fel y cyngor. Mae'r

fframwaith caffael newydd hwn yn rhoi mwy o reolaeth i'r cyngor dros eu cyflenwyr, a'r effeithiau i lawr y gadwyn gyflenwi. Mae hyn yn cynnwys cefnogi a hyrwyddo tyfwyr sy'n defnyddio arferion ffermio cynaliadwy, sicrhau bod cig ac wyau'n cael eu cyrchu o'r DU yn unig, a bod yr holl gynhwysion yn rhydd o ychwanegion. Maen nhw hefyd yn caffael yn dymhorol, gyda dwy fwydlen ar draws y flwyddyn ysgol i addasu ryseitiai yn ôl cynnyrch tymhorol gan gyflenwyr lleol.

Roedd eu ffocws ar gyrchu bwyd lleol, moesegol ac organig wedi arwain at wasanaeth arlwyo Bury yn derbyn Gwobr Arian Lleodedd Bwyd Cynaliadwy yn 2024 ac yna, Gwobr Aur Food for Life y Gymdeithas Bridd yn 2025. Mae'r olaf yn rhoi pwyslais mawr ar gyrchu bwyd lleol, iach, moesegol a chyfeillgar i'r hinsawdd, a dim ond i sefydliadau sy'n defnyddio o leiaf 15 y cant o gynhwysion organig a 5 y cant o gynhwysion maes. Mae gwasanaeth arlwyo Bury wedi mynd y tu hwnt i'r ymrwymïadau organig hyn-gan gyrchu'r holl ffrwythau, llysiau, wyau, blawd ac iogwrt gan gynhyrchwyr sydd wedi'u hardystio'n organig-sy'n cyfateb i 25 y cant o gyfanswm eu gwariant ar fwyd. Mae gwasanaeth arlwyo Bury hefyd yn gwario



5.1 y cant o gyfanswm eu gwariant bwyd ar fwyd môr sydd wedi'i ardystio gan y Cyngor Stiwardiaeth Forol, a 9.2 y cant ar gynnyrch ardystiedig Masnach Deg. Bydd hyn nid yn unig yn lleihau cost y prydu hyn - mae pylsau yn ffynhonnell brotein rhad ac effeithiol - ond bydd hefyd yn lleihau'r ddibyniaeth ar gynnyrch cig sy'n cynnwys soia ac olew palmwydd sy'n gysylltiedig â datgoedwigo.⁷⁰

Mae'r cyngor wedi ymrwymo i weithio gyda phlant ysgol i sicrhau bod y newidiadau i fwydlenni ysgol yn cael eu derbyn yn dda. Mae hyn wedi cynnwys darparu addysg ar lythrennedd bwyd mewn ysgolion, a dysgu plant am gadwyni cyflenwi bwyd a beth sy'n gwneud pryd iach a maethlon. Maen nhw wedi gweithio gyda Cool Food Pro a myfyrwyr i gyfrifo effaith carbon prydu ysgol, ac i'w helpu i ddeall effaith eu dewisiadau bwyd yn well. Mae gwasanaeth arlwyo Bury hefyd wedi gweithio gyda chynghorau ysgol a disgyblion i dderbyn adborth ar y bwydlenni newydd, sy'n eu galluogi i ymateb yn rhagweithiol ac addasu ryseitiai pan fo angen. Maen nhw'n adrodd bod plant wedi addasu i'r mathau newydd o brydau ac yn dewis mwy o fwydydd ffres, cartref, gan leihau'r risg o wastraff ar blatiau.

⁷⁰ <https://sizeofwales.org.uk/wp-content/uploads/2026/01/Assessing-the-Viability-of-a-Livewell-and-Deforestation-Free-School-Menu-in-Wales-3.pdf>



Y canlyniadau? Roedd y fframwaith caffael wedi'i deilwra, a ddatblygwyd gyda YPO (Yorkshire Purchasing Organisation), yn caniatáu iddynt gyflawni arbedion cost o tua £50,000 yn y flwyddyn gyntaf – hyd yn oed wrth brynu mwy o gynnyrch organig a sicrhau pris teg i gynhyrchwyr lleol. Mae'r tîm arlwygo wedi cyflawni'r Safon Gegin Werdd drwy eu hymdrechion i fesur a lleihau gwastraff bwyd, a rheoli

ynni a dŵr yn ofalus. Mae amcangyfrifon yn awgrymu bod gweithredu ar wastraff bwyd wedi arbed cyfwerth â 757,608kg CO₂e y flwyddyn. Mae cyflwyno cofrestru awtomatig ar gyfer prydau ysgol am ddim wedi cynyddu'r defnydd ohonynt 18.4 y cant, gan ganiatáu i 400 o blant ychwanegol gael mynediad at brydau iach a chynaliadwy bob dydd.⁷¹

⁷¹ <https://food2030.eu/news/good-food-for-all-how-bury-is-rewiring-its-food-system/>

Mae'r newidiadau sydd wedi cael eu gwneud gan Gyngor Bury ynghylch y ffordd maen nhw'n prynu bwyd wedi helpu i leihau'r risg o ddatgoedwigo mewn sawl ffordd:

- Mae newid i gynhyrchu ar y safle gan ddefnyddio cynhwysion cyflawn a datblygu fframwaith caffael wedi'i deilwra yn rhoi mwy o reolaeth i'r tîm arlwygo dros y cynhwysion maen nhw'n eu cyrchu, gan gynnwys a oes ganddynt ardystiadau moesegol fel Masnach Deg, sy'n cynnwys meini prawf Dim Datgoedwigo;
- Lleihau bwydydd wedi'u prosesu'n helaeth, sydd yn aml yn cynnwys olew palmwydd neu ddeilliadau olew palmwydd (mae dros 80 y cant o fwydydd wedi'u pecynnu yn cynnwys rhyw fath o olew palmwydd – sydd yn un o'r prif bethau sydd yn achosi datgoedwigo ym Malaysia ac Indonesia), drwy goginio mwy o gynhwysion ffres a chyflawn;
- Trwy ddefnyddio cig Prydeinig yn unig, mae hyn yn dileu'r risg o fewnforio cig eidion o Frasil – cig eidion Brasil yw prif ysgogydd datgoedwigo trofannol sy'n gysylltiedig â nwyddau sy'n risg i goedwigoedd;
- Mae defnyddio wyau ac iogwrt organig yn helpu i leihau'r risg o ddatgoedwigo sy'n gysylltiedig â phorthiant anifeiliaid fel soia ac olew palmwydd. (O dan ardystiad organig, rhaid i ffermwyr fwydo eu hanifeiliaid ar borthiant 100 y cant organig, ac mae safonau tyfu organig yn lleihau'r risg o ddatgoedwigo trofannol yn sylweddol.)

Geirfa

Geirfa

Bioamrywiaeth

Cyfoeth ac amrywiaeth bywyd ar y Ddaear, amrywiaeth biolegol.

Dal a storio carbon

Mae hyn yn cyfeirio at brosesau biolegol, cemegol neu ffisegol sy'n cael gwared â charbon deuocsid o'r atmosffer a'i storio, e.e. Ffotosynthesis.

Diwydrwydd dyladwy

Proses o wiriadau a mesurau sydd yn cael eu perfformio gan sefydliad i sicrhau eu bod nhw wedi gwneud popeth o fewn eu pŵer i leihau'r risg o ddatgoedwigo a throsi tir yn ei chadwynau cyflenwi.

Ecosystem

Mae ecosystem yn cyfeirio at y rhyngweithiad rhwng pethau byw a difywyd mewn amgylchedd naturiol, system ecolegol.

Gwasanaethau ecosystem

Mae hyn yn cyfeirio at y buddion sy'n cynnal bywyd a dderbyniwn gan ecosystemau gweithredol iach, e.e. aer a dŵr glân, bwyd a meddyginiaeth.

Diraddio coedwigoedd

Mae hyn yn cyfeirio at y broses lle mae iechyd coedwig yn cael ei ddiraddio gan ffactor neu ffactorau negyddol, e.e. torri coed yn anghyfreithlon, amaethyddiaeth, effeithiau hinsawdd, tanau coedwig a chlefyd. Nid ydy coedwigoedd wedi diraddio yn gallu gweithredu'n dda bellach, ac maen nhw'n llai abl i gynnal bywyd e.e. trwy ddarparu gwasanaethau ecosystem neu fel cynefinoedd ar gyfer bywyd gwyllt.

Nwyon tŷ gwydr

Pan fyddant yn cael eu rheoli, mae nwyon tŷ gwydr yn helpu i gadw tymheredd y Ddaear dan reolaeth drwy ddal gwres o'r haul h.y. yr effaith tŷ gwydr. Heb hyn, byddai tymheredd y Ddaear tua 33°C yn oerach, ac ni fyddai bywyd fel y'i canfyddwn yn bodoli. Fodd bynnag, pan fod lefelau Nwyon Tŷ Gwydr yn cronni yn yr atmosffer, e.e. o ganlyniad i lefelau cynyddol o allyriadau carbon dynol, mae tymheredd y Ddaear yn codi wrth i fwy a mwy o ymbelydredd yr haul gael ei ddal ar wyneb y Ddaear. Mae nwyon Nwyon Tŷ Gwydr yn cynnwys anweddw'r, carbon deuocsid, methan ac ocsid nitrus.

Trosi tir, newid mewn defnydd tir

Mae hyn yn disgrifio'r broses lle mae'r amgylchedd naturiol yn cael ei throsi gan weithgaredd dynol, fel clirio coedwigoedd er mwyn tyfu cnydau neu bori gwartheg.

Ungnwd

Yr arfer o dyfu cyltifar neu rywogaeth un cnwd ar yr un llain o dir, heb gylchdroi cnydau. Mae soia ac olew palmwydd yn aml yn cael eu tyfu mewn planhigfeydd ungnwd.

Trobwynt

Mae hyn yn cyfeirio at drothwy yn un o systemau'r Ddaear a fyddai, pe byddai'n cael ei groesi, yn arwain at newidiadau mawr ac o bosibl, na ellir eu gwrthdroi. Mae gwyddonwyr hinsawdd wedi nodi naw trobwynt yn system y Ddaear, sy'n cynnwys clefyd coed ynn coedwig law yr Amazon, haenen iâ'r Ynys Las yn chwalu, y riffiau cwrel yn marw, a chylchrediad dymchwel deheuol Môr yr Iwerydd yn methu.⁷²

⁷² <https://www.carbonbrief.org/explainer-nine-tipping-points-that-could-be-triggered-by-climate-change>



Cyfeiriadau

Cyfeiriadau

1. <https://ourworldindata.org/drivers-of-deforestation>
2. <https://www.google.com/url?q=https://www.wri.org/news/release-global-forest-loss-shatters-records-2024-fueled-massive-fires&sa=D&source=docs&ust=1758192143023156&usg=AOvVaw2F542icnbcQ7XQPjat4du3>
3. <https://www.wri.org/news/release-global-forest-loss-shatters-records-2024-fueled-massive-fires>
4. <https://www.imperial.ac.uk/news/251057/climate-change-made-unprecedented-amazon-rainforest/>
5. <https://news.mongabay.com/2023/11/deforestation-in-the-brazilian-amazon-falls-22-in-2023/>
6. https://assets.publishing.service.gov.uk/media/696e0eae719d837d69afc7de/National_security_assessment_-_global_biodiversity_loss__ecosystem_collapse_and_national_security.pdf
7. <https://www.metoffice.gov.uk/about-us/news-and-media/media-centre/weather-and-climate-news/2025/uk-on-track-for-one-of-its-warmest-summers-on-record>
8. <https://www.lshtm.ac.uk/newsevents/news/2025/nearly-600-heat-related-deaths-expected-uk-heatwave-researchers-estimate>
9. https://www.wwf.org.uk/sites/default/files/2024-03/5126%20-%20FARMING%20IN%20WALES_REPORT_v3.pdf
10. <https://eciu.net/media/press-releases/2025/majority-of-farmers-report-feelings-of-anxiety-and-depression-in-face-of-drought-and-flooding>
11. <https://eciu.net/analysis/reports/2023/climate-fossil-fuels-and-uk-food-prices-2023>
12. <https://climate.copernicus.eu/copernicus-2024-first-year-exceed-15degc-above-pre-industrial-level>
13. <https://www.grida.no/resources/6948>
14. <https://rainforestfoundation.org/our-work/priorities/>
15. <https://www.worldwildlife.org/magazine/issues/summer-2021/articles/restoring-brazil-s-atlantic-forest>
16. <https://www.science.org/doi/10.1126/sciadv.aaw2869>



17. <http://www.edf.org/sites/default/files/tropical-forest-carbon-in-indigenous-territories-a-global-analysis.pdf>
18. <https://www.nature.com/articles/s41558-021-01042-5>
19. <http://www.fao.org/3/cb2953en/cb2953en.pdf>
20. <https://www.unep-wcmc.org/news/six-ways-conserving-and-sustainably-using-nature-could-prevent-future-pandemics>
21. <https://www.cirad.fr/en/press-area/press-releases/2021/zoonotic-diseases-and-deforestation-covid-19>
22. <https://thecsrjournal.in/csr-how-deforestation-contributes-to-spreading-of-nipah-virus/>
23. <https://europepmc.org/article/MED/33842581>
24. https://assets.publishing.service.gov.uk/media/696e0eae719d837d69afc7de/National_security_assessment_-_global_biodiversity_loss__ecosystem_collapse_and_national_security.pdf
25. <https://futuregenerations.wales/cym/wp-content/uploads/2025/05/Future-Generations-Report-2025.pdf>
26. <https://www.legislation.gov.uk/asc/2023/1/enacted>
27. <https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2026-03/social-partnership-and-public-procurement-wales-act-statutory-guidance-socially-responsible-procurement-srp.pdf>
28. <https://www.gov.wales/section-6-biodiversity-and-resilience-ecosystems-duty-reporting-guidance>
29. <https://www.ceres.org/sites/default/files/reports/2020-06/Ceresper cent20Investorper cent20Guideper cent20FINALper cent20Juneper cent2029.pdf>
30. <https://www.deloitte.com/us/en/insights/topics/environmental-social-governance/importance-of-sustainability-to-employees.html>
31. <https://www.wwf.org.uk/press-release/brits-back-action-tackle-illegal-deforestation>
32. Ystadegau a gymerwyd o'r adroddiad 'Cymru a chyfrifdldeb byd-eang II' sydd ar ddod, a ysgrifennwyd gan Steve Jennings (Alauda Consulting) mewn cydweithrediad â Maint Cymru a WWF Cymru.
33. <https://www.theguardian.com/environment/2020/nov/25/how-can-we-stop-using-soya-soy-linked-to-deforestation>
34. Ystadegau a gymerwyd o'r adroddiad 'Cymru a chyfrifdldeb byd-eang II' sydd ar ddod, a ysgrifennwyd gan Steve Jennings (Alauda Consulting) mewn cydweithrediad â Maint Cymru a WWF Cymru.
35. Ystadegau a gymerwyd o'r adroddiad 'Cymru a chyfrifdldeb byd-eang II' sydd ar ddod, a ysgrifennwyd gan Steve Jennings (Alauda Consulting) mewn cydweithrediad â Maint Cymru a WWF Cymru.
36. Ystadegau a gymerwyd o'r adroddiad 'Cymru a chyfrifdldeb byd-eang II' sydd ar ddod, a ysgrifennwyd gan Steve Jennings (Alauda Consulting) mewn cydweithrediad â Maint Cymru a WWF Cymru.
37. <https://policy.friendsoftheearth.uk/sites/default/files/documents/2026-03/FOE%20Timber%20Report%20-%20accessible.pdf>
38. <https://sizeofwales.org.uk/wp-content/uploads/2024/05/Saving-for-the-future-Size-of-Wales-public-pension-report.pdf>
39. <https://rspo.org/as-an-organisation/membership/membership-categories/>
40. https://rspo.org/wp-content/uploads/RSPO_Membership_Rules_20202.pdf
41. <https://rspo.org/mill-list-submission/>
42. <https://sizeofwales.org.uk/wp-content/uploads/2026/01/Assessing-the-Viability-of-a-Livewell-and-Deforestation-Free-School-Menu-in-Wales-3.pdf>
43. <https://www.sciencedaily.com/releases/2018/05/180515092931.htm>

44. <https://www.sciencedirect.com/science/article/pii/S2212877816000387>
45. <https://wickedleeks.riverford.co.uk/news/organic-market-growth-outpaces-non-organic-with-83-of-uk-households-buying-organic/?utm>
46. <https://www.bartecmunicipal.com/insight/uk-food-waste-statistics-2025-what-do-the-facts-say/>
47. <https://sizeofwales.org.uk/wp-content/uploads/2024/05/Saving-for-the-future-Size-of-Wales-public-pension-report.pdf>
48. <https://super.abril.com.br/mundo-estranho/quais-sao-os-povos-indigenas-mais-numerosos-do-brasil/>
49. <https://www.sciencedirect.com/science/article/pii/S2530064418301317>
50. <https://phys.org/news/2020-03-destruction-atlantic-forest-fragment-local.html>
51. https://www.worldwildlife.org/documents/548/7nxri5veo8_WWF_Forest_Pathways_Report_2023_Web.pdf
52. <https://www.theguardian.com/global-development/2025/sep/29/agriculture-deforestation-farming-soya-cultivation-eating-brazil-amazon>
53. <https://www.soilassociation.org/media/27139/stop-killing-our-rivers.pdf>
54. <https://www.survivalinternational.org/news/11886>
55. https://www.kk.dk/sites/default/files/uploaded-files/the_city_of_copenhagen_food_strategy_2019.pdf
56. <https://www.esdn.eu/newsflash/detail/frances-eco-responsible-public-services>
57. <https://www.gouvernement.fr/en/ending-deforestation-caused-by-importing-unsustainable-products>
59. <https://beta.gouv.fr/startups/ma-cantine-egalim.html>
60. <https://agriculture.gouv.fr/SNANC-20252030>
61. <https://www.fern.org/publications-insight/article/frances-new-food-strategy-targets-ready-made-meals-and-increased-plant-based-consumption/>
62. <https://sizeofwales.org.uk/wp-content/uploads/2025/06/Size-of-Wales-CCBC-Case-Study-Long-Version-Final.pdf>
63. <https://sizeofwales.org.uk/wales-map/monmouthshire-county-council/>
64. <https://www.pcrm.org/news/news-releases/more-90-patient-satisfaction-new-york-city-health-hospitals-plant-based-meals>
65. <https://www.nychealthandhospitals.org/pressrelease/nyc-health-hospitals-now-serving-plant-based-meals-as-primary-dinner-option-for-inpatients-at-all-of-its-11-public-hospitals/>
66. https://www.nyc.gov/assets/foodpolicy/downloads/pdf/NYCHospitals_PlantBasedDefaults_2025.pdf
67. https://www.nyc.gov/assets/foodpolicy/downloads/pdf/NYCHospitals_PlantBasedDefaults_2025.pdf
68. <https://www.foodforlife.org.uk/media/psrn2sty/bury-impact-report.pdf>
69. <https://councildecisions.bury.gov.uk/documents/s25025/Bury%20Food%20Strategy.pdf>
70. <https://sizeofwales.org.uk/wp-content/uploads/2026/01/Assessing-the-Viability-of-a-Livewell-and-Deforestation-Free-School-Menu-in-Wales-3.pdf>
71. <https://food2030.eu/news/good-food-for-all-how-bury-is-rewiring-its-food-system/>
72. <https://www.carbonbrief.org/explainer-nine-tipping-points-that-could-be-triggered-by-climate-change>

An aerial photograph of a tropical river winding through a dense, lush forest. The river is a deep blue color, reflecting the sky, and is surrounded by thick green foliage. The forest is composed of various types of trees, including palm trees and broad-leafed tropical species. The lighting is bright, suggesting a sunny day, and the overall scene is one of a pristine natural environment.

Atodiad

Atodiad A: Siarter Dim Datgoedwigo a Cynllun Gweithredu

Rydym i gyd yn rhan o'r economi datgoedwigo – mae'n bresennol yn y bwyd rydym yn ei fwyta, y cynnyrch rydym yn eu prynu, a'r tanwydd yn ein cerbydau. Pan fyddwn yn meddwl am y term *dim datgoedwigo*, mae'n ddefnyddiol ei gymharu gyda'r Ymgyrch Dim Plastig – gallwch gymryd camau i leihau neu atal defnyddio plastig untro, ond mae'n anodd iawn cael gwared ar blastig yn llwyr. Mae'r un peth yn wir am risg i goedwigoedd. Mae'n anodd iawn cael gwared â'r holl risgiau sy'n gysylltiedig â datgoedwigo gan eu bod wedi'u gwreiddio gymaint yn ein heconomi, ond gallwn gymryd camau ymarferol i leihau'r risg honno'n sylweddol, fel defnyddio ardystiadau moesegol, ailddefnyddio deunyddiau, a lleihau gwastraff.

Mae *Hyrwyddwr Dim Datgoedwigo* yn ysgol, busnes, sefydliad, cymuned neu unigolyn sy'n eiriol dros goedwigoedd trofannol, pobl a natur, trwy gyfrwng dysgu, codi ymwybyddiaeth, gweithredu dros newid a thrwy ysbrydoli eraill.

Mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus, o dan Ddeddf Partneriaethau Cymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (2023), i fanteisio ar arian cyhoeddus drwy gaffael i gyflawni'r nodau llesiant a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan gynnwys y nod o fod yn Gymru sy'n "gyfrifol ar lefel fyd-eang". Mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol hefyd i gyrff cyhoeddus ystyried effeithiau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol caffael cyhoeddus, ac i sicrhau bod cadwyni cyflenwi moesegol a theg yn cael eu cefnogi. Mae'r Canllaw Statudol ar gyfer y Ddeddf yn cynnwys sawl cyfeiriad at ddatgoedwigo, ac yn nodi y dylai gyrff cyhoeddus ystyried y risgiau sy'n gysylltiedig â datgoedwigo wrth gaffael nwyddau, a sicrhau bod cyflenwyr yn monitro'r risg honno ac yn cyrchu cynnyrch gydag ardystiadau moesegol. Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi argymhell, yn ei adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2025:

“Rhaid i'r sector cyhoeddus ddod yn rhydd o ddatgoedwigo erbyn 2028, a sicrhau nad yw cadwyni cyflenwi yn cyfrannu at ddatgoedwigo byd-eang, colli cynefinoedd nac at achosion o dorri hawliau dynol, gan gynnwys llafur plant a cham-drin hawliau Pobl Frodorol.”

Siarter Hyrwyddwr Dim Datgoedwigo

Fel corff cyhoeddus, mae [enw] yn ymrwymo i helpu i gyflawni holl nodau llesiant Cymru a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), gan gynnwys cyfrifoldeb ar lefel fyd-eang, ac i fodloni ein dyletswydd bioamrywiaeth o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Rydym yn credu y bydd dod yn Hyrwyddwr Dim Datgoedwigo nid yn unig yn ein helpu i gyfrannu at y nodau hyn ond hefyd, yn ein galluogi i weithredu fel eiriolwr dros goedwigoedd trofannol, pobl a natur.

I ddod yn Hyrwyddwr Dim Datgoedwigo:

1. Rydym yn ymrwymo i fynd i'r afael â'n hól troed datgoedwigo dramor a cholli cynefinoedd drwy ein harferion a'n hymddygiadau, er enghraifft, trwy gaffael ar wahanol gamau, fel herio'r pethau sydd yn cael eu prynu gennym, ystyried yr effeithiau ar lesiant neu drwy reoli contractau'n effeithiol.
2. Rydym yn ymrwymo i ddatblygu a gweithredu ein Cynllun Gweithredu Dim Datgoedwigo, ac i archwilio'r cynnyrch a'r gwasanaethau rydym yn eu caffael sy'n risg i ddatgoedwigo.
3. Rydym yn ymrwymo i asesu'r risg o ddatgoedwigo rydym yn agored iddi drwy fuddsoddi mewn cynlluniau pensiwn y sector cyhoeddus, gan gynnwys Partneriaeth Pensiynau Cymru, ac i gynnwys meini prawf dim datgoedwigo yn ein polisiau buddsoddi yn y dyfodol.
4. Rydym yn ymrwymo i wneud newidiadau i nwyddau sy'n risg i ddatgoedwigo, o blaid cynhwysion sydd wedi'u cyrchu'n fwy moesegol.
5. Byddwn yn adolygu ein hymrwymiad Masnach Deg, ac yn sicrhau ei fod yn cael ei weithredu yn ein harferion caffael.
6. Rydym yn ymrwymo i helpu ein corff cyhoeddus i ddysgu am bwysigrwydd coedwigoedd trofannol, datgoedwigo sydd yn cael ei achosi gan y pethau rydym yn eu bwyta a'u defnyddio, a beth y gallant ei wneud yn ei gylch.
7. Rydym yn ymrwymo i weithio gyda'n cymuned, busnesau, cyflenwyr a'n partneriaid, gan gynnwys ysgolion, i godi ymwybyddiaeth ac i gefnogi gweithredu ar ddatgoedwigo sydd yn cael ei achosi gan y pethau rydym yn eu prynu a'u bwyta, ac er mwyn helpu i greu cymuned o hyrwyddwyr dim datgoedwigo.

Er mwyn gwneud hyn, mae'n rhaid i ni ymrwymo i'r Cynllun Gweithredu canlynol:

Cynllun Gweithredu Hyrwyddwyr Dim Datgoedwigo

1. Dysgu

Dechreuwch gyda sesiwn hyfforddi/gweithdy Dim Datgoedwigo ar gyfer staff, a fydd yn ymwneud â helpu i gyflawni'r gwaith hwn a'r rhai mewn rolau gwneud penderfyniadau/arweinyddiaeth. (Gall Maint Cymru gyflwyno hyn.)

2. Adlewyrchu

Edrychwch ar eich arferion a'ch ymddygiadau eich hun fel corff cyhoeddus, a darganfod ble y gellir gwneud newidiadau. Er enghraifft:

- a. Ydych chi wedi mabwysiadu ffyrdd i aildefnyddio adnoddau a lleihau gwastraff ar draws eich sefydliad?
- b. Ydych chi wedi gwneud ymrwymiad cyhoeddus i gyrchu'n gynaliadwy?
- c. Ydych chi wedi dewis cronfa bensiw moesegol ar gyfer eich staff?

Gallwch ddefnyddio'r [*templed Polisiâu ac Arferion*](#) i'ch helpu gyda hyn.

3. Archwilio

Cynhaliwch archwiliad Dim Datgoedwigo ar y gwasanaethau a'r cynnyrch rydych yn eu caffael fel corff cyhoeddus, a nodwch feysydd i'w newid. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw gynnyrch a chynhwysion sy'n risg i goedwigoedd sydd yn cael eu caffael yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol, er enghraifft, drwy wasanaethau fel arlwy a glanhau.

Gallwch ddefnyddio'r [*templed archwilio Nwyddau Sy'n Risg i Goedwigoedd*](#) i'w helpu i'ch arwain chi drwy'r broses hon. (Bydd tîm Dim Datgoedwigo Maint Cymru yn hapus i'ch cefnogi chi gyda hyn.)

4. Gweithredu

Dechreuwch weithredu'r newidiadau rydych chi wedi'u nodi yng nghamau 2 a 3. Gallai'r rhain gynnwys:

- a. Cofrestru ar gyfer y Siarter Dim Datgoedwigo a gwneud eich ymrwymiad yn gyhoeddus.
- b. Creu neu ddiweddarau canllawiau arlwy i gynnwys meini prawf Dim Datgoedwigo
- c. Defnyddio llai o fwydydd wedi'u prosesu'n helaeth mewn prydau sydd yn cael eu gweini i staff a'r cyhoedd.
- ch. Defnyddio mwy o broteinau planhigion mewn prydau ysgol, a gweini llai ond gwell ansawdd o gig a chynhyrchion llaeth.
- d. Dewis opsiwn sydd wedi'i ardystio'n foesebol yn lle cynhwysion sy'n risg i goedwigoedd.
- dd Adolygu eich ymrwymiad Masnach Deg, a sicrhau bod cynnyrch Masnach Deg yn cael blaenoriaeth dros rai sydd heb gael eu hardystio, yn unol â'ch statws Masnach Deg.
- e. Ymrwymo i ddod yn gorff cyhoeddus sydd wedi cael ei ardystio gan yr RSPO. (*Ymrwymiad hirdymor*)

Sylwer nad ydym yn disgwyl i chi wneud hyn i gyd ar unwaith! Taith yw hon, felly efallai yr hoffech ddechrau gydag un weithred ymarferol a pharhau i wneud newidiadau gam wrth gam. Pa bynnag ffordd y byddwch yn dewis dechrau, rydym yn argymhell eich bod chi'n ymuno â'r Siarter Dim Datgoedwigo ac yn gwneud eich ymrwymiad yn gyhoeddus.

5. Cydweithio

Parhewch i weithio gyda'ch partneriaid cymunedol a'u cefnogi i stopio cyfrannu at ddatgoedwigo, yn enwedig ysgolion, busnesau a ffermwyr. Cefnogwch ffermwyr lleol sy'n defnyddio arferion ffermio sy'n gyfeillgar i natur, er mwyn adeiladu gwydnwch bwyd lleol.

- a. Hyrwyddo ffermwyr lleol sy'n mabwysiadu arferion ffermio adfywiol ac organig sy'n lleihau effaith amgylcheddol ac sy'n cefnogi cadwyni cyflenwi lleol.
- b. Cefnogi tyfwyr a chyflenwyr lleol llai i gystadlu am gontractau'r sector cyhoeddus. Er enghraifft, fel rhan o Fframwaith Bwyd Grŵp Bwyd Cydweithredol y Sector Cyhoeddus yng Nghymru, rhannwyd contractau yn rhannau llai i annog cyfranogiad gan gyflenwyr llai sy'n byw yng Nghymru.
- c. Gweithio gyda'ch Partneriaeth Bwyd Lleol i ddarparu cymorth i gynhyrchwyr lleol a sefydliadau cymunedol sy'n hyrwyddo systemau bwyd lleol, gwydn.
- ch. Cefnogi cyflenwyr ar fframweithiau neu drwy'r broses gaffael i ddeall yn well sut i fodloni meini prawf dim datgoedwigo, drwy ddulliau fel cynnwys llai o gig, defnyddio ardystiadau moesegol a chyrchu'n gyfrifol.
- d. Gweithio gydag ysgolion lleol i gefnogi dysgu am systemau bwyd, a gwahodd disgyblion i gymryd rhan yn y gwaith o ddylunio prydau ysgol, gan eu galluogi i gael dweud eu dweud ynghylch tarddiad eu bwyd.


6. Ysbrydoli / Codi ymwybyddiaeth

Bydd rhywfaint o hyn yn digwydd yn naturiol drwy sgwrsiau gyda'ch cyflenwyr, h.y. pan fyddwch yn gwneud newidiadau o ganlyniad i'ch archwiliad. Fodd bynnag, bydd llawer o gyfleoedd eraill i godi ymwybyddiaeth ac ysbrydoli eraill ar draws eich gwaith.

Er enghraifft:

- a. Efallai bod cyfleoedd ar draws eich gwasanaethau i ddylanwadu ar y partneriaid a'r rhanddeiliaid rydych chi'n gweithio gyda nhw.
- b. O fewn eich cymuned, e.e. gallech rannu'r daith rydych chi arni fel corff cyhoeddus a sut rydych yn gweithio gyda phartneriaid cymunedol i sicrhau newid.
- c. Ar draws eich tîm staff, e.e. drwy drefnu sesiwn cinio a dysgu (Dim Datgoedwigo). (Gall Maint Cymru gyflwyno hyn).
- ch. Ar ôl llofnodi'r Siarter Dim Datgoedwigo a dechrau ar eich taith dim datgoedwigo, gallwch rannu eich camau a'ch newidiadau mewn ymddygiad yn gyhoeddus, i ddangos effaith ac ysbrydoli eraill.

Gallwch lawrlwytho'r Siarter Dim Datgoedwigo llawn a'r Cynllun Gwireddu [yma](#).



**Mae'n rhaid i ni weithredu gyda'n
gilydd i atal mwy o ddatgoedwigo,
cynhesu byd-eang ac effeithiau
amgylcheddol sy'n gwaethygu.**



Pecyn Cymorth Caffael Cyhoeddus Dim Datgoedwigo, Mehefin 2026

Ysgrifennwyd a golygwyd gan:

Angie Kirby, Barbara Davies-Quy, Will Rahman-Daultrey a Scout Astley Jones, Maint Cymru

Cyda diolch arbennig i:

Shea Buckland-Jones, WWF Cymru; Faye Sherlock a Cat Barton, Sw Caer; Jeff Conant, Friends of the Earth US; Commissao Guarani Yvyrupa, Brasil; a Jenipher's Coffi



Ariannwyd yr adroddiad hwn gan Sefydliad Siartredig Caffael a Chyflenwi. Nid yw cynnwys y cyhoeddiad hwn, o reidrwydd, yn adlewyrchu safbwynt na barn Sefydliad CIPS.